Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon
## Llywodraeth Cymru 2020-21

Mawrth 2023



senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddCCGG@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddArchwilio**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus**

# Craffu ar Gyfrifon
# Llywodraeth Cymru 2020-21

Mawrth 2023

senedd.cymru

# Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddCCGG**

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Mark Isherwood AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mabon ap Gwynfor AS**
Plaid Cymru



**Natasha Asghar AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Mike Hedges AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru

---

Mynychodd yr Aelod a ganlyn fel dirprwy yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Huw Irranca-Davies AS**
Llafur Cymru

Roedd yr Aelod a ganlyn hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn.



**Rhys ab Owen AS**
Plaid Cymru

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd ....... 5**

**Argymhellion ....... 6**

**1. Cyflwyniad....... 9**

**2. Paratoi cyfrifon, eu cymeradwyo ac oedi....... 10**

**3. Amodi ....... 12**

Amodi Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2019-20....... 12

Amodi Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21....... 12

**4. Taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ....... 14**

Penodi Ysgrifennydd Parhaol newydd a'r rôl ....... 14

Telerau ac amodau'r Ysgrifennydd Parhaol presennol ....... 15

Newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol....... 18

Newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol....... 19

Taliad ym mis Hydref 2021 ....... 23

Amodi ....... 25

Cadw cofnodion a hysbysu ....... 27

Ein barn ni ....... 28

**5. Cymorth COVID-19 i Fusnesau ....... 35**

Cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru ....... 35

Gwaith Monitro ar ôl Cwblhau (PCM) ....... 36

Twyll a Gwall....... 38

Cynlluniau awdurdodau lleol....... 44

Ein barn ni ....... 48

**6. Alldro adnoddau....................................................50**

Goblygiad tanwariant £155.5 miliwn ddiwedd 2020-21 ..........................52

Ein barn ni ..........................................................55

**Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar..........................57**

# Rhagair y Cadeirydd

Cynhaliodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Chweched Senedd ei waith craffu cyntaf ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru mewn amgylchiadau eithriadol.

Nid yn unig yr oedd oedi sylweddol cyn gosod Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21 a chawsant eu llofnodi naw mis yn ddiweddarach na'r amserlen a gytunwyd yn wreiddiol, ond rhoddwyd amod ar y Cyfrifon hefyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ar dri mater gwahanol. Yn eu plith roedd taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr a gwariant ar gyfer rhai Grantiau Busnes COVID-19.

Mae'r rhain yn faterion difrifol ac rydym yn gwerthfawrogi'r amser y mae Archwilio Cymru wedi'i gymryd i archwilio cyfrifon Llywodraeth Cymru yn drylwyr er mwyn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu harchwilio a'u hadrodd mewn modd agored, teg a thryloyw. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi gwaith swyddogion Llywodraeth Cymru wrth baratoi'r cyfrifon a gymerodd amser ychwanegol, o ystyried llawer o'r materion a nodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, yn enwedig o ystyried y gwariant na welwyd ei debyg gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.

Rydym yn croesawu gwaith ymgysylltu cadarnhaol a rhagweithiol Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru â'r Pwyllgor wrth gynnal ei waith craffu ar y cyfrifon hyn.

Mae gwaith y Pwyllgor hwn yn parhau i fod yn hanfodol o ran archwilio materion pwysig ynghylch llywodraethiant a rheoli ariannol o fewn Llywodraeth Cymru. Mae ein gwaith craffu ar y cyfrifon yn rhoi cyfle i ni dynnu sylw at unrhyw faterion sy'n peri pryder yn gyhoeddus, gan roi sicrwydd a thryloywder a bod yn agored ynghylch sut mae arian cyhoeddus yn cael ei wario.

Rydym wedi cymryd amser i archwilio nifer o faterion difrifol yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, gan ganolbwyntio’n benodol ar y materion sy'n ysgogi’r amodau a roddwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn ogystal â nifer o bryderon yn ymwneud â dull Llywodraeth Cymru o gyflawni ei hadroddiadau ariannol. Mae ein canfyddiadau wedi’u nodi’n fanwl yn yr adroddiad hwn.

**Mark Isherwood AS,**
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifion Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu i'r Pwyllgor ei diffiniad o 'secondiad', ynghyd â'i pholisïau ar gyfer trefniadau o'r fath, gan gynnwys canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer Uwch-weision Sifil ..................................... Tudalen 33

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod trefniadau secondiad yn y dyfodol, rhai mewnol ac allanol, sy'n ymwneud â staff ar Fand Cyflog 2 Uwch-wasanaeth Sifil a throsodd (Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol, gan gynnwys Prif Swyddogion Deintyddol, Digidol, Meddygol, Nyrsio, Gofal Cymdeithasol, Gwyddonol a Milfeddygol, yn ogystal â Phrif Weithredwyr) yn Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfleu'n glir a'u nodi i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gyfnodau'r secondiadau. ........................................................................................................................ Tudalen 33

**Argymhelliad 3.** Pan fo'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn ei Chyfrifon a/neu yn ei Datganiad Polisi Tâl yn datgelu gwybodaeth am aelodau unigol o staff sydd ar secondiad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adrodd cyfnod y trefniadau yn y dogfennau cyhoeddedig hynny. ...................................................................................................................... Tudalen 33

**Argymhelliad 4.** Nodwn y disgwylir i broses benodi gynhwysfawr ar gyfer swydd Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddechrau yn 2023. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cael amserlen a manylion y broses, gan gynnwys y dull o recriwtio h.y. a fydd y rôl yn cael ei hysbysebu'n fewnol neu'n allanol ac a fydd y swydd yn cael ei llenwi dros dro neu'n barhaol. ............................................................................................. Tudalen 33

**Argymhelliad 5.** Mae'n hanfodol y tynnir sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i newidiadau sylweddol sy'n ymwneud â rôl yr Ysgrifennydd Parhaol cyn gynted â phosibl i sicrhau gwaith craffu amserol a phriodol ar faterion o'r fath. Mae'n hynod bryderus, pan ofynnwyd am newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn 2019, na chawsant eu datgelu i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dangos lefelau uwch o dryloywder wrth ymgysylltu â'r Pwyllgor ar faterion o ddiddordeb sylweddol fel y mater hwn yn y dyfodol. ................................................................................ Tudalen 33

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei harferion ar gyfer adrodd a chadw cofnodion i sicrhau bod penderfyniadau mewnol ynghylch rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, ynghyd â rolau eraill ar lefel Cyfarwyddwr neu uwch, yn cael eu dogfennu'n glir. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru yn cael eu

cymhwyso gan gyflogeion ar lefel is. Dylid rhannu canlyniadau'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor hwn, pan ddaw i ben. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gynnwys manylion newidiadau o ran sylwedd yn nhrefniadau gwaith neu dâl yr Ysgrifennydd Parhaol neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gydag esboniad o'r rheswm am y newidiadau hyn. Dylid cwblhau'r gwaith hwn, fel mater o drefn, yn y Cyfrifon sy'n berthnasol i'r flwyddyn gyfrifyddu pan wnaed y newid. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid hysbysu'r Pwyllgor hwn yn ysgrifenedig am newidiadau perthnasol, gydag esboniad pam na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn y set berthnasol o Gyfrifon. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 8.** Rydym yn nodi'r gwendidau a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'n rhagflaenodd yn niwylliant sefydliadol Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain at ddiffygion o ran cadernid ei phrosesau cadw cofnodion a sut y mae'r themâu hyn wedi codi eto yn ein gwaith ni. Fel y cyfryw, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau penodol i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ofynion ei phrosesau cadw cofnodion mewnol gan nad ydym yn disgwyl i brosesau cadw cofnodion gwael fod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi manylion i ni am y camau y bydd yn eu cymryd i wella ei phrosesau cadw cofnodion. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os nad yw'n gallu cwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 10.** Rydym yn croesawu'r gwaith ehangach y mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu ei wneud ar y gydberthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pryd y mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ac yn darparu rhagor o wybodaeth i ni am yr hyn y bydd y gwaith hwn yn ei gynnwys, yn ogystal ag amserlenni i'w gwblhau a'r allbynnau. ........ Tudalen 34

**Argymhelliad 11.** Rydym yn siomedig i nodi nad oedd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, a osodwyd gerbron y Senedd ar 13 Rhagfyr 2022, yn cynnwys amcangyfrif twyll a gwall. Rydym yn argymell bod esboniad am hyn yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor, yn enwedig o ystyried y sicrwydd y rhoddodd swyddogion i ni y byddai'r amcangyfrif hwn yn cael ei gynnwys. ........ Tudalen 49

**Argymhelliad 12.** Rydym yn croesawu'r canlyniad bod un awdurdod lleol wedi dewis talu am gynhyrchion ychwanegol y Fenter Twyll Genedlaethol, a nododd dwyll a gwall o werth sylweddol. Byddai hyn yn awgrymu bod cynnal rhagor o wiriadau o'r fath yn cynnig gwerth am arian. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cyfrif clir o'r camau y mae awdurdodau lleol wedi'u cymryd i asesu'r risg o dwyll a gwall, ac ymateb iddi, yn y grantiau cymorth busnes a weinyddwyd ganddi a'i bod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor. ................ Tudalen 49

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o eglurder ar y sefyllfa ddiweddaraf am adfer arian o'r cynlluniau Cymorth Covid-19 i Fusnesau y mae wedi'u gweinyddu, gan gynnwys esboniad o sut y mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r symiau a adlewyrchir ym memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhai a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod tystiolaeth lafar. ........................................................................................ Tudalen 49

**Argymhelliad 14.** Rydym yn croesawu'r ffaith bod tîm newydd o ddeg aelod o staff i wneud gwaith Monitro ar ôl Cwblhau sy'n canolbwyntio ar grantiau i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig wedi'i sefydlu dros dro am ddwy flynedd, gydag wyth o'r deg aelod wedi'u recriwtio'n allanol am gyfnod penodol sy'n dod i ben yn ystod haf 2023. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa staffio'r tîm hwn y tu hwnt i haf 2023. ........................................................................................................................ Tudalen 49

**Argymhelliad 15.** Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru o ran cwblhau ei gwaith Monitro ar ôl Cwblhau fel rhan o'n gwaith craffu yn y dyfodol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariadau chwe misol i'r Pwyllgor ar y cynnydd sy'n cael ei wneud. ....................... Tudalen 49

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlenni a'r trafodaethau a ddigwyddodd rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF ynghylch cais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen swm sy'n fwy na'r hyn a ganiateir ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 31 Mawrth 2021. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am drafodaethau a ddigwyddodd rhwng diwedd y flwyddyn (Mawrth 2021) a mis Tachwedd 2021. ........................................................................................................................ Tudalen 56

**Argymhelliad 17.** Nid ydym yn disgwyl i ragor o gyllid gael ei golli i Gymru yn dilyn tanwariant gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn argymell ei bod yn ceisio cymeradwyaeth am hyblygrwydd gan Drysorlys EF cyn gynted â phosibl cyn diwedd y flwyddyn ariannol fel y gellir defnyddio cyllid yn ystod y flwyddyn os gwrthodir ei chais. .......................... Tudalen 56

# 1. Cyflwyniad

**1.** Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei chyfrifon cyfunol (y "Cyfrifon"), sy'n rhoi amlinelliad o gyllid a rhwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru. Mae'r trafodion ariannol sydd wedi'u cynnwys yn adlewyrchu trafodion a balansau Llywodraeth Cymru, ei his-gwmnïau a sefydliadau'r GIG.

**2.** Mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ("y Pwyllgor"), a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus cyn hynny, wedi bod yn craffu ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ers 2014. Cyfrifon 2020-21 yw'r cyntaf i gael eu cymeradwyo a'u llofnodi gan Dr Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol presennol, a ddechreuodd yn ei swydd ar 1 Tachwedd 2021.

# 2. Paratoi cyfrifon, eu cymeradwyo ac oedi.

**3.** Mae adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno eu cyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru ("yr Archwilydd Cyffredinol") i'w harchwilio erbyn 30 Tachwedd yn y flwyddyn ariannol ganlynol ar yr hwyraf. Mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol osod gerbron y Senedd ei archwiliad a'i ardystiad o'r Cyfrifon o fewn pedwar mis ar ôl cael set o Gyfrifon archwiliadwy.

**4.** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi amserlen flynyddol ar gyfer llunio a chyhoeddi ei Chyfrifon, yn dilyn argymhellion gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon 2017-18[1]. Mae'r amserlen hon yn ddangosol ac yn ddarostyngedig i newid pe bai materion yn codi yn ystod yr archwiliad.

**5.** Dyma'r amserlen ar gyfer Cyfrifon 2020-21, y cytunwyd arni rhwng swyddogion Llywodraeth Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru:

- Cyflwynwyd i Archwilio Cymru: 23 Awst 2021
- Llofnodwyd: 25 Hydref 2021 i 29 Hydref 2021
- Gosodwyd gerbron y Senedd: 29 Hydref 2021

**6.** Yn ystod haf 2021 cafodd y Pwyllgor wybod, yn anffurfiol, gan Lywodraeth Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol, efallai y caiff Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21 eu cwblhau yn hwyrach na'r amserlen y cytunwyd arni, erbyn tua diwedd mis Tachwedd 2021. Cawsom wybod y bu oedi oherwydd y gwaith ychwanegol sy'n cael ei wneud gan Archwilio Cymru ar grantiau cymorth i fusnesau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru.

**7.** Pe bai'r Cyfrifon wedi eu harchwilio a'u gosod erbyn diwedd mis Tachwedd 2021, byddai hyn wedi bod o fewn yr amserlen statudol ar gyfer gwneud hynny. Tua diwedd mis Tachwedd 2021, cawsom wybod y byddai oedi pellach cyn cwblhau'r Cyfrifon, ar ôl i Lywodraeth Cymru ddweud wrth Archwilio Cymru am ddigwyddiad ôl-fantolen posibl, yn gysylltiedig â thaliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol pan ddaeth ei chyflogaeth i ben.

**8.** Ar 30 Tachwedd 2021, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Parhaol yn gyfrinachol at y Pwyllgor gyda diweddariad ar yr oedi o ran cwblhau Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21. Ar 16 Rhagfyr, ysgrifennodd yr Archwilydd Cyffredinol at y Pwyllgor yn breifat yn cadarnhau'r oedi

[1] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2017-18, Mawrth 2019

pellach hwn ac yn dweud ei fod wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth iddo erbyn dechrau mis Ionawr 2022.

**9.** Ar 26 Ionawr 2022, gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am yr oedi gan nad oedd y Cyfrifon wedi cael eu llofnodi a'u cadarnhau eto. Dywedodd y canlynol:

> *"... it's possible that, over the next one to two weeks, we will be in a position to have those Accounts signed off, but obviously the audit opinion is out of my hands and I'll just need to make sure that we can still reconcile any outstanding information."*[2]

**10.** Ar 4 Chwefror 2022, gwnaethom ysgrifennu'n breifat at y Llywydd i fynegi pryder am yr oedi, gan nodi'r risg y gallai'r dyddiad cau statudol gael ei fethu. Ymatebodd y Llywydd ar 21 Chwefror 2022.

**11.** Cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau preifat yn rheolaidd ar y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cwblhau'r Cyfrifon gan yr Archwilydd Cyffredinol a Llywodraeth Cymru, gan alluogi i'r sefyllfa gael ei monitro. Cododd Aelodau o'r Senedd yr oedi cyn cyhoeddi'r Cyfrifon yn y Cyfarfod Llawn ar 18 Ionawr 2022 ac ar 29 Mehefin 2022.

**12.** Cymeradwyodd a llofnododd yr Ysgrifennydd Parhaol y Cyfrifon ar 4 Awst 2022, 16 mis ar ôl diwedd y flwyddyn.

**13.** Llofnododd yr Archwilydd Cyffredinol ei Dystysgrif ac Adroddiad ar 4 Awst 2022, yr un dyddiad ag y cafodd y Cyfrifon eu cymeradwyo, a chawsant eu gosod gerbron y Senedd ar 5 Awst 2022. Roedd hyn naw mis yn hwyrach na'r amserlen arfaethedig wreiddiol, a thua naw mis yn hwyrach na Chyfrifon 2019-20, a osodwyd gerbron y Senedd ar 2 Tachwedd 2020.

**14.** Ar 30 Medi 2022, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol Adroddiad Er Budd y Cyhoedd o'r enw "Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth"[3] ('yr Adroddiad Er Budd y Cyhoedd'). Mae'r adroddiad yn nodi manylion am yr amgylchiadau ynghylch y taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, a arweiniodd at yr Archwilydd Cyffredinol yn darparu safbwyntiau archwilio amodol ar Gyfrifon 2020-21.

---

[2]Cofnod y Trafodion, 26 Ionawr 2021, paragraff 11

[3] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022

# 3. Amodi

## Amodi Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2019-20

**15.** Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn 'gwir a theg' ar Gyfrifon 2019-20, sef y tro cyntaf i hyn ddigwydd. Y rheswm am hyn oedd nad oedd yr Archwilydd Cyffredinol yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru o'r gofynion cyfrifyddu ar gyfer cost rhai o'i hymyriadau brys i ymateb i'r coronafeirws. Yn benodol, ym mha flwyddyn y dylid cydnabod peth gwariant yn ymwneud â grantiau cysylltiedig ag Ardrethi Annomestig i fusnesau bach ac i fusnesau yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch. Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi cynnwys y gwariant cysylltiedig yn ei Chyfrifon ar gyfer 2019-20. Barn yr Archwilydd Cyffredinol oedd y dylai grantiau, gyda chost adroddedig o £739 miliwn, fod wedi'u cynnwys yng Nghyfrifon 2019-20. Yn dilyn hynny, rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn 'wir a theg' amodol ar y Cyfrifon hyn.

**16.** Roedd Cyfrifon 2019-20 yn dangos tanwariant net o £436 miliwn yn erbyn cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn honno, a gymeradwywyd gan y Senedd. Pe bai'r costau a hepgorwyd mewn perthynas â'r cynlluniau cymorth busnes a nodwyd yn flaenorol wedi cael eu cynnwys (£739 miliwn), byddai Llywodraeth Cymru wedi nodi gorwariant o £303 miliwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20. Mae unrhyw orwariant yn cael ei ystyried yn afreolaidd ac yn anawdurdodedig ac felly mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn ar reoleidd-dra.

**17.** Gwnaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd graffu ar y Cyfrifon yn ystod tymor yr hydref 2020, a chyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor ym mis Mawrth 2021[4].

## Amodi Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21

**18.** Barn yr Archwilydd Cyffredinol oedd bod Cyfrifon Llywodraeth Cymru 2020-21 yn rhoi darlun 'cywir a theg' 'ac eithrio' effeithiau neu effeithiau posibl y materion a ganlyn[5]:

- Taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol – nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gallu rhoi digon o dystiolaeth briodol iddo ddod i gasgliad parthed a oedd y gwariant yn y Cyfrifon yn ymwneud â thaliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn gywir ac wedi'i awdurdodi'n briodol.

[4] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru, Mai 2020
[5] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 178

- Rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr – roedd Cyfrifon 2020-21 wedi hepgor gwariant sy'n ymwneud â rhwymedigaethau treth pensiynau clinigwyr.

- Gwariant mewn perthynas â rhai grantiau busnes COVID-19 – gwnaeth Llywodraeth Cymru gynnwys gwariant yn ymwneud â rhai grantiau busnes yng Nghyfrifon 2020-21, yn hytrach na Chyfrifon 2019-20. Roedd hwn yn achos o amodi canlyniadol yn deillio o faterion a arweiniodd at amodi archwiliad 'gwir a theg' 2019-20, yr ydym yn ei ddisgrifio'n gynharach yn yr adroddiad hwn.

**19.** Hefyd, gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn ar reoleidd-dra ynghylch y taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol.

**20.** At hynny, tynnodd yr Archwilydd Cyffredinol sylw at ddatgeliadau yn y Datganiad Llywodraethu ynghylch y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol a hefyd ynghylch lefel amcangyfrifedig y twyll a'r gwallau mewn grantiau busnes COVID-19. Yn gysylltiedig â'r olaf o'r rhain, gwnaeth Archwilio Cymru baratoi Memorandwm ar **Gymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21** i roi tystiolaeth ac esboniad ychwanegol.

**21.** Ac eithrio'r mater sy'n ymwneud â rhwymedigaethau treth pensiwn clinigwyr, a oedd yn fater gwaddol ers cyfrifon 2019-20, mae gwybodaeth bellach am y materion hyn yn cael ei chynnwys mewn adrannau dilynol o'r adroddiad hwn.

# 4. Taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol

## Penodi Ysgrifennydd Parhaol newydd a'r rôl

**22.** Penodwyd y Fonesig Shan Morgan i rôl yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Chwefror 2017, am dymor o bum mlynedd. Ym mis Mai 2021, hysbysebodd Llywodraeth Cymru am Ysgrifennydd Parhaol newydd, gan na fyddai ei chontract yn cael ei adnewyddu.

**23.** Ar 9 Medi 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru benodiad Dr Andrew Goodall, a oedd wedi bod ar secondiad i Lywodraeth Cymru o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ers 2014[6]. Cyhoeddodd Swyddfa'r Cabinet y penodiad hefyd a dywedodd y byddai Dr Goodall yn dechrau yn y swydd ym mis Tachwedd 2021[7], oedd yn awgrymu y byddai'r Fonesig Shan Morgan yn gadael tua thri mis cyn diwedd ei thymor pum mlynedd (Chwefror 2022).

**24.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol presennol yr hyn a ganlyn yn ei ddiweddariad yn y Datganiad Llywodraethu yng Nghyfrifon 2020-21:

> *"Gan mai ymgeisydd mewnol a allai ddechrau ar unwaith oedd y sawl a ddewiswyd [i olynu'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol] a chan y byddai osgoi cyfnod trosglwyddo estynedig o fudd i'r sefydliad, roedd y cyn Ysgrifennydd Parhaol yn barod i adael cyn diwedd ei chontract."*[8]

**25.** Rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol gyd-destun pellach, gan nodi'r hyn a ganlyn yn ei adroddiad er budd y cyhoedd:

> *"Fy nealltwriaeth yw bod Prif Weinidog Cymru wedi gofyn am derfynu'r contract yn gynnar gan bod olynydd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei adnabod, a bod arno eisiau i raglen o ddiwygiadau gael ei harwain o'r dechrau un gan y sawl a fyddai yn y swydd trwy gydol cyfnod y Senedd newydd. Yn yr amgylchiadau hyn, fe gytunodd yr Ysgrifennydd Parhaol y byddai ei chontract yn cael ei derfynu cyn diwedd y cyfnod*

[6] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 'Cyhoeddi Ysgrifennydd Parhaol newydd Llywodraeth Cymru', 9 Medi 2021
[7] Datganiad i'r Wasg Swyddfa'r Cabinet, New Permanent Secretary to the Welsh Government, 9 Medi 2021
[8] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, Adroddiad Atebolrwydd, tudalen 140

> *penodol ac y byddai ei chyflogaeth yn y gwasanaeth sifil yn dod i ben ar yr un diwrnod."*[9]

**26.** Ynglŷn ag ymadawiad cynnar y cyn-Ysgrifennydd Parhaol, dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr hyn a ganlyn wrth y Pwyllgor:

> *"… it was my arrival as an internal candidate who was successful through the Permanent Secretary process that actually triggered the departure arrangements. So, I was—rather than an external candidate, where there could have been a very different discussion about starting dates—available to start with more immediate effect. I think it was in the interests of the organisation to avoid a protracted handover period … But I know and I would share that it was the First Minister's preference that the long-term senior civil service leadership, not least for the programme for government, should be in place as soon as possible in the new Senedd term, noting the recruitment arrangements that had been put in place."*[10]

## Telerau ac amodau'r Ysgrifennydd Parhaol presennol

**27.** Ar ôl dechrau'r swydd ar 1 Tachwedd 2021, bydd y datgeliadau ynghylch tâl a phensiwn Dr Goodall yn rôl yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael eu cynnwys mewn adroddiad am y tro cyntaf yng Nghyfrifon Llywodraeth Cymru 2021-22. Fodd bynnag, trafododd y Pwyllgor y trefniadau hyn yng nghyd-destun y taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, terfynu ei chyflogaeth yn gynnar a phenodi'r Ysgrifennydd Parhaol presennol.

**28.** Ar gyfer 2017-18, roedd y cyflog oedd yn daladwy i Dr Goodall fel Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru yn y band £200,000-£205,000. Roedd ei gyfnod o secondiad i Lywodraeth Cymru o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan am dymor o bum mlynedd i ddechrau ac wedyn cafodd hynny ei ymestyn i ddwy flynedd arall ac o bosib hyd at ddwy flynedd arall eto[11].

**29.** Roedd y cyflog oedd yn daladwy i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol, bryd hynny, yn y band £155,000-£160,000.

---

[9] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022
[10] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 221
[11] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 47

**30.** Hysbysebwyd swydd yr Ysgrifennydd Parhaol ym mis Mai 2021 gyda chyflog rhwng £162,500 a £180,000. Cadarnhaodd Dr Goodall, ar ôl iddo gael ei benodi i rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, ei fod wedi aros ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Cadarnhaodd hefyd ei fod yn parhau ar fframwaith cyflog prif weithredwr y GIG a'i fod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau'r GIG.[12] O'r herwydd, mae ei gyflog presennol yn fwy na'r cyflog a gafodd ei hysbysebu ar gyfer y swydd Ysgrifennydd Parhaol.

> *Ar y sail honno, gwnaethom ofyn sut mae telerau ac amodau Dr Goodall yn cymharu â'r rhai a hysbysebwyd ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd Parhaol. Esboniodd: "My employment rights are maintained throughout that period of time [of the secondment], so if there are any changes to my employment under the very senior managers category, whether they are general terms and conditions changes, pay awards or pension contributions, they simply apply in the normal way as part of the annual process for the NHS. Those mechanisms are reported into Welsh Government and then there is an exchange on the funding side between Aneurin Bevan University Health Board, as my employing organisation, and Welsh Government".[13]*

**31.** Ar 1 Hydref 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai Judith Paget, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn olynu Dr Goodall fel Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru[14]. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol sut y cytunwyd ar y trefniadau hyn:

> *"There was an opportunity, in checking out with colleagues in Wales, to second Judith Paget from Aneurin Bevan health board into that post—a very experienced chief executive..."[15]*

**32.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol wrth y Pwyllgor fod Judith Paget wedi ymgymryd â'r rôl yn Llywodraeth Cymru dros dro, gyda phroses benodi o sylwedd i ddilyn. Cawsom wybod y byddai'r broses hon yn dechrau yn 2023[16].

**33.** I gymhlethu materion ymhellach, penodwyd Prif Weithredwr dros dro yn lle Judith Paget ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddechrau. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol

---

[12] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 37 a 40
[13] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 40
[14] Datganiad i'r Wasg Llywodraeth Cymru, 'Penodiad newydd i swydd Prif Weithredwr GIG Cymru a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol', 1 Hydref 2021
[15] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 33
[16] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 33

wrthym fod y Bwrdd wedi cadarnhau bod aelod presennol o'r tîm gweithredol yn gallu ymgymryd â'r rôl honno ac y byddai hyder gan y bwrdd yn y penodiad hwnnw hefyd.[17] Adroddwyd yn y cyfryngau ar 1 Hydref 2021 y byddai Glyn Jones, Dirprwy Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar y pryd, a oedd hefyd yn Gyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Pherfformiad, yn ymgymryd â'r rôl Prif Weithredwr dros dro.[18]

**34.** Ar 5 Medi 2022, cyhoeddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ei fod wedi penodi Nicola Prygodzicz, a oedd gynt yn Gyfarwyddwr Cynllunio, Digidol a TG, fel ei Brif Swyddog Gweithredol newydd, a nododd ei bod yn dechrau yn y swydd ar yr un diwrnod[19].

**35.** Gwnaethom geisio cael eglurhad ynghylch rhai o'r trefniadau hyn, o gofio bod yr Ysgrifennydd Parhaol a Judith Paget wedi cael eu secondio i Lywodraeth Cymru o'r un bwrdd iechyd lleol. Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"So, when I moved across from the Aneurin Bevan health board mechanism—as I said, I'm on the NHS chief executive pay framework—I removed myself from the substantive appointment for Aneurin Bevan University Health Board. So, Judith Paget had taken that on substantively and had been appointed to that role through an external recruitment process."*[20]

**36.** Mae'r trefniadau hyn yn codi nifer o gwestiynau pellach am statws y rolau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r cyfnodau secondiad i Lywodraeth Cymru. Nodwn fod penodiad Judith Paget i Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael ei wneud i swydd barhaol, er i Dr Goodall gael ei benodi i Lywodraeth Cymru ar secondiad. Nid yw'n glir beth fydd yn digwydd o ran y swyddi hyn ar ddiwedd secondiad Dr Goodall.

**37.** Gwnaethom ofyn i'r Ysgrifennydd Parhaol egluro'r trefniadau hyn a dywedodd:

> *"I have a substantive status in that organisation [Aneurin Bevan UHB] based on the chief executive payroll, so I am an employee as part of those secondment arrangements. But given that, at the time I was appointed to be the NHS Wales chief executive, I was appointed initially for a five-year term and then, that was extended subsequently by another two years and potentially up to another two years again, it would have been inappropriate to have left the organisation with unclear and interim*

[17] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 33
[18] South Wales Argus, Aneurin Bevan University Health Board new CEO, 1 Hydref 2021
[19] Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, 'Prif Weithredwr Newydd yn Dechrau Rôl', 5 Medi 2022
[20] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 45

> *leadership arrangements. So, you could argue that that exposes me to risk, but I retain substantive employment arrangements within the organisation; I've just allowed that post to be free to be appointed to."*[21]

## Newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol

**38.** Penodwyd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol i swydd amser llawn. Yng Nghyfrifon 2018-19 Llywodraeth Cymru, nodwyd gostyngiad yng nghyflog yr Ysgrifennydd Parhaol o'i gymharu â'r flwyddyn gynt. Dywedodd mai'r rheswm am hyn oedd bod y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi dewis cael budd o'i phensiwn ar 31 Mawrth 2018. Mewn nodyn yn y Cyfrifon, dywedodd Llywodraeth Cymru:

> *"Mae'r gostyngiad yng nghyflog Shan Morgan ers y flwyddyn flaenorol yn deillio o'r penderfyniad i roi'r gorau i gronni pensiwn yn PCSPS. Mae hyn wedi gostwng cost cyflogaeth i Lywodraeth Cymru ond mae'r rôl yn parhau i gael ei chyflawni ar sail amser llawn."*[22]

**39.** Gofynnodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ynglŷn â hyn ym mis Hydref 2019 yn ystod ei waith craffu ar Gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19.

**40.** Yn ystod y gwaith craffu hwnnw, gofynnwyd i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol pam y talwyd llai o gyflog iddi yn ystod 2018-19 na'r flwyddyn flaenorol, ond ei bod wedi parhau i weithio ar sail amser llawn. Esboniodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol:

> *"... I'm 64, I have worked full-time for over 40 years in the civil service, so I've ended up in a very similar situation to the one that's been publicised for the doctors in relation to taxation. I decided, therefore, that I would end my contributions to the civil service pension scheme last April. That involves various rules that mean I have to take a 20 per cent reduction in salary."*[23]

**41.** Ychwanegodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol: "I'm not working any fewer hours at all. If anything, with Brexit, I'm working more".[24]

---

[21] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 47
[22] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2018–2019 , tudalen 68
[23] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 164
[24] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cofnod y Trafodion, 7 Hydref 2019, paragraff 165

**42.** Mae'n hanfodol bwysig nodi, wrth gael ei holi gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol am y gostyngiad yn ei chyflog, na wnaeth y cyn-Ysgrifennydd Parhaol sôn o gwbl am y trefniadau y mae Llywodraeth Cymru nawr yn mynnu eu bod wedi eu gweithredu iddi ymddeol yn rhannol a gyda newidiadau i'w threfniadau gwaith.

## Newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol

**43.** Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cofnodi'r hyn a ganlyn[25]:

- pa benderfyniadau mewn perthynas â chyflogaeth Ysgrifennydd Parhaol a gedwir yn ôl gan Swyddfa'r Cabinet, a pha rai sy'n benderfyniadau i Lywodraeth Cymru eu gwneud.
- lle mae penderfyniadau'n rhai i Lywodraeth Cymru eu gwneud, sut y dylai'r penderfyniadau hynny gael eu gwneud a'u cymeradwyo. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried y byddai cynnwys gweision sifil isradd mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â thelerau cyflogaeth Ysgrifennydd Parhaol gan gynnwys cyflog, patrwm gweithio a hawl i wyliau'n golygu gwrthdaro buddiannau cynhenid.
- sut y dylai cyfrifoldebau 'rheolaeth llinell' gael eu cyflawni, a chan bwy. Er enghraifft, trefniadau rheoli perfformiad, awdurdodi a chadw cofnodion mewn perthynas â gwyliau a gweithio hyblyg.

**44.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod cyflog yr Ysgrifennydd Parhaol yn cael ei benderfynu gan Swyddfa Cabinet y DU, sydd hefyd yn cyhoeddi'r contract cyflogaeth ysgrifenedig. Roedd y contract hwn, ynghyd â pholisïau a chanllawiau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, yn cynrychioli telerau ac amodau cyflogaeth yr Ysgrifennydd Parhaol. Ysgrifennydd y Cabinet yw rheolwr llinell yr Ysgrifennydd Parhaol.

**45.** Adroddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd ar atebolrwydd deuol rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, gyda chyfrifoldebau i Ysgrifennydd y Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil fel rhan o'i rôl fel gwas sifil yn y DU, ac i Brif Weinidog Cymru ac i Lywodraeth Cymru[26].

---

[25] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022, tudalen 9, paragraff 18
[26] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020

Roedd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol bryderon am y potensial i densiynau neu wrthdaro buddiannau ddeillio o'r atebolrwydd deuol hwn.[27]

**46.** Yn ei Adroddiad Er Budd y Cyhoedd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn dweud: "Ar ryw adeg cyn mis Chwefror 2018", dywedodd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol bod ganddi "ddyhead i ymddeol yn rhannol". O dan reolau cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil, caniateir ymddeoliad rhannol dim ond os yw swydd yr aelod yn cael ei ail-lunio naill ai drwy leihau ei oriau gwaith neu leihau cyfrifoldebau gan arwain at doriad cyflog o 20 y cant o leiaf. Fel arall, gallai gweithwyr gytuno i symud i swydd sydd ar gyflog is.

**47.** Dywed Llywodraeth Cymru iddi ail-lunio'r rôl o 1 Ebrill 2018 trwy gytuno y gallai'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol gymryd diwrnod ychwanegol o wyliau bob mis. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi tystiolaeth sy'n awgrymu bod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi parhau i weithio oriau amser llawn ac yn dweud nad yw Llywodraeth Cymru "wedi gallu darparu unrhyw ddogfennaeth gydoesol ar gyfer fy archwilwyr i gadarnhau bod swydd yr Ysgrifennydd Parhaol wedi cael ei hail-lunio", yn unol â rheolau'r cynllun pensiwn.[28]

**48.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn dod i'r casgliad nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cofnodi'r trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn glir ar gyfer rôl yr Ysgrifennydd Parhaol. Mae ei adroddiad yn nodi bod telerau ac amodau cyflogaeth y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi darparu lwfans gwyliau blynyddol o 30 diwrnod y flwyddyn iddi, heb unrhyw hawl i daliadau goramser.

**49.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn mynd ymlaen i ddweud nad oedd wedi gweld unrhyw dystiolaeth oedd yn awgrymu bod y Prif Weinidog yn ymwybodol o unrhyw newid neu "ymddeoliad rhannol", naill ai cyn y cais neu fel rhan o'r penderfyniad i gytuno ag ef. Dywed yr Archwilydd Cyffredinol fod Swyddfa'r Cabinet wedi cadarnhau y dylai fod wedi cael gwybod am unrhyw newid yn y trefniadau gweithio o flaen llaw, a'i gymeradwyo.

**50.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol presennol wrth y Pwyllgor ar 6 Hydref 2022:

> *"I am aware that Shan had not made her line manager, the Cabinet Secretary, aware of the specific change in working arrangements back in 2018, but we were discharging those arrangements as Welsh Government, as her employer, which was the core principle for what the civil service pension arrangements required… it*

[27] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2018-19: Llywodraeth Cymru, Mai 2020, tudalen 45, paragraff 163
[28] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022, tudalen 14, paragraff 33

> *became clear that there was some lack of clarity and no agreed processes in place between devolved governments and the Cabinet Office concerning the notification of changes in the working arrangements of Permanent Secretaries, and perhaps the shared understanding wasn't as clear in respect of the different responsibilities of the UK civil service on the one hand and Welsh Government having to discharge not least its legal status as an employer."*[29]

**51.** Newidiodd trefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol eto o 1 Ebrill 2019. Yn hytrach na chymryd un diwrnod o wyliau bob mis, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi y byddai'r Ysgrifennydd Parhaol yn cronni diwrnodau o ymddeoliad rhannol i'w cymryd ar ddiwedd ei chontract. Daw'r Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad y byddai wedi cronni ac y byddai ganddi hawl i dros 120 o ddiwrnodau o ymddeoliad rhannol, sy'n gyfystyr â thua 6 mis o wyliau, cyn diwedd ei chyflogaeth.

**52.** Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y byddai hyn y tu hwnt i gwmpas polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru. Mae hefyd yn dweud bod y newidiadau o Ebrill 2018 ac Ebrill 2019 wedi eu cymeradwyo gan Gyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru.

**53.** Yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru wedi dweud wrth archwilwyr bod trafodaethau wedi'u cynnal ddechrau 2020 am oriau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Ni chafodd unrhyw nodiadau eu cadw o'r trafodaethau hyn. Mae hefyd yn nodi nad oedd unrhyw gofnodion cydoesol i ddangos nifer y "diwrnodau ymddeoliad rhannol" a gronnwyd neu a gymerwyd gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol[30], neu i ddangos cydymffurfiaeth â darpariaethau 'Taliad Arbennig' Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.[31]

**54.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Ysgrifennydd Parhaol am y cofnodion a gadwyd gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â threfniadau gwaith newydd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Dywedodd:

> *"There was some of that documentation at the time, on some of the matters of detail, that weren't as precise as we would have wished or documented, but actually*

[29] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2021, paragraff 206

[30] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022, tudalen 21, paragraff 68

[31] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022, tudalen 22

> *the Permanent Secretary's office did maintain a record of the days that she was taking off at that time."*[32]

**55.** Aeth ymlaen i ddweud wrth y Pwyllgor nad oedd y cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi rhoi gwybod i'w rheolwr llinell, Ysgrifennydd y Cabinet, am y newid i'w threfniadau gwaith, ond yn hytrach ei bod wedi delio ag ef trwy Lywodraeth Cymru fel ei chyflogwr[33]. Yn wir, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd na chafodd Ysgrifennydd y Cabinet wybod am y newid tan fis Awst 2019, drwy ohebiaeth "anffurfiol a phersonol"[34]. Gwnaeth yr Ysgrifennydd Parhaol gydnabod yr hyn a ganlyn:

> *"… through our recent discussions with the Cabinet Office, it became clear that there was some lack of clarity and no agreed processes in place between devolved governments and the Cabinet Office concerning the notification of changes in the working arrangements of Permanent Secretaries, and perhaps the shared understanding wasn't as clear in respect of the different responsibilities of the UK civil service on the one hand and Welsh Government having to discharge not least its legal status as an employer."*[35]

**56.** Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr hyn a ganlyn wrth y Pwyllgor ar 6 Hydref 2022:

> *"… these were matters [changes to the former Permanent Secretary's working arrangements] that were disclosed in previous Accounts; it wasn't that our Accounts this year were the first time that the part-time arrangements had been made explicit in terms of the pension agreement that we put in place."*[36]

**57.** Fodd bynnag, ni wnaeth Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 a 2019-20 roi gwybodaeth bellach am y newid i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Roedd y Cyfrifon ar gyfer 2018-19 yn nodi'r gostyngiad yng nghyflog yr Ysgrifennydd Parhaol, ond, fel y nodir ym mharagraff 38 o'r adroddiad hwn, ni roddodd unrhyw wybodaeth am newid oriau gwaith ac ni wnaeth unrhyw gyfeiriadau at hyn yn ystod tystiolaeth lafar pan wnaeth y Pwyllgor a'n rhagflaenodd graffu ar y cyfrifon hyn.

---

[32] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 205
[33] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 206
[34] Archwilio Cymru, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, Medi 2022
[35] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 206
[36] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 215

**58.** Cyfeiriwyd at y mater eto yng Nghyfrifon 2019-20, a nododd:

> *"Dewisodd Shan Morgan elwa ar ei phensiwn ar 31 Mawrth 2018. Yn unol â rheolau Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, gostyngwyd ei chyflog o 1 Ebrill 2018 ymlaen."*[37]

**59.** Nid oedd Datganiadau Polisi Tâl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018, 2019, 2020 a 2021 yn cynnwys unrhyw gyfeiriad at newidiadau i drefniadau gweithio'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol.

## Taliad ym mis Hydref 2021

**60.** Nododd Cyfrifon 2020-21 y talwyd £92,018 i'r Ysgrifennydd Parhaol ar adeg ei hymadawiad. Roedd hyn yn cynnwys ei mis olaf o gyflog (£11,499) yn ogystal â thaliad o £80,519, sef:

> *"… tâl yn lle rhybudd, gwyliau blynyddol heb eu cymryd a thaliad allgontractiol sy'n cyfateb i £39,123 (yr oedd £30,289 ohono yn gronnus ar 31 Mawrth 2021 fel rhan o'r croniad Buddion Cyflogeion cyffredinol) mewn perthynas â dyddiau o ymddeoliad rhannol pan weithiodd Shan."*[38]

**61.** Mae'r trefniadau cymeradwyo a llywodraethu yn amrywio, gan ddibynnu ar natur pob taliad, felly mae'r math o daliad, neu i ba gategori y mae'r taliad yn perthyn, yn arwyddocaol. Er enghraifft, mae'n ofynnol i daliadau diswyddo arbennig gael eu cymeradwyo gan y Prif Weinidog yn unol â darpariaethau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**62.** Mae'r Adroddiad er Budd y Cyhoedd gan yr Archwilydd Cyffredinol yn rhoi cyd-destun ychwanegol am bob elfen o'r taliad, gan gynnwys:

- Taliad yn lle rhybudd (£31,843) – daw'r Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad na fyddai wedi bod yn afresymol i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol geisio taliad diswyddo arbennig am derfynu ei chyflogaeth yn gynnar. Fodd bynnag, penderfynodd nad oedd hawl ganddi i gael taliad yn lle rhybudd. Ni cheisiodd Llywodraeth Cymru gyngor cyfreithiol am y taliad, er bod ei thîm cyfreithiol yn ymwybodol ohono. Er bod y Prif Weinidog wedi cymeradwyo'r elfen hon o'r taliad, nid oedd y cais am gymeradwyaeth yn esbonio telerau contract yr Ysgrifennydd Parhaol. Felly, daeth yr

[37] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2019-20, tudalen 91
[38] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 151

Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad "n[a] ddarparwyd digon o wybodaeth ar gyfer Prif Weinidog Cymru iddo allu gwneud penderfyniad gwybodus" ynghylch y taliad.

- Gwyliau blynyddol (£9,553) – y sail ar gyfer y gwyliau blynyddol yr oedd modd eu hawlio a'r gyfradd ddyddiol oedd bod gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol drefniant gweithio llawn-amser wedi iddi gymryd "ymddeoliad rhannol". Roedd hyn hefyd yn cynnwys y gwyliau blynyddol y byddai'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn eu cronni yn ystod y cyfnod rhybudd, hyd at ddiwedd ei chontract ar 5 Chwefror 2022. Roedd Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Moeseg Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r penderfyniad i wneud y taliad ond dywedodd y byddai angen ymgynghori â Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol cyn cwblhau'r trefniadau. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi na ddigwyddodd hyn.

- Taliad allgontractiol (£39,123) – roedd y taliad hwn yn gysylltiedig â diwrnodau "ymddeoliad rhannol". Disgrifiodd yr Archwilydd Cyffredinol yr elfen hon o'r taliad fel "yr elfen fwyaf dadleuol o'r taliad ar y cyfan a wnaed i'r Ysgrifennydd Parhaol", gan nodi mai'r "sail i'r taliad oedd bod gan yr Ysgrifennydd Parhaol drefniant gweithio rhan-amser ar ôl iddi gymryd ymddeoliad rhannol". Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn disgrifio'r taliad fel un "newydd" a oedd heb ei ategu gan dystiolaeth ddogfennol ddigonol, gan nodi nad oedd yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru.

**63.** Mewn perthynas â'r taliad allgontractiol, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyfeirio at ohebiaeth rhwng swyddfa'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, a gadarnhaodd y byddai ganddi 74 o ddiwrnodau "ymddeoliad rhannol" ar 31 Hydref 2021. Yn ôl adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, nid oedd hyn wedi'i ategu gan dystiolaeth a chynigiodd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol dalu am y 74 o ddiwrnodau hyn, a oedd yn seiliedig ar hanner y 148 o ddiwrnodau "ymddeoliad rhannol" y byddai'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol wedi'u cronni rhwng 1 Ebrill 2019 a 5 Chwefror 2022.

**64.** Daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad y dylai'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol fod wedi dweud wrth y Prif Weinidog am yr elfen hon o'r taliad gan nad oedd o fewn y trefniadau safonol ar gyfer yr holl staff ac nad oedd darpariaeth ar gyfer trefniant o'r fath wedi'i nodi ym mholisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru. Disgrifiodd yr Archwilydd Cyffredinol yr elfen hon fel math o "daliad arbennig" y dylai fod wedi'i gyfeirio'n ffurfiol at Uned Llywodraethu Corfforaethol Llywodraeth Cymru i'w drafod, yn unol â 'Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru'. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod y dull a ddefnyddiwyd i gyfrifo nifer y diwrnodau cymwys yn

"fympwyol a heb sail briodol", a bod y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn "aneglur, [yn] anghyson, ac yn anghywir".

**65.** Pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Parhaol a oedd Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch y taliad, nododd na chymerwyd cyngor cyfreithiol yn uniongyrchol ar y pryd am gynnig taliad, ond bod rôl a chyfrifoldeb y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn cwmpasu'r gofyniad am ddealltwriaeth o'r meysydd eang hyn, beth bynnag fo'r cyngor cyfreithiol[39].

**66.** Cafodd Llywodraeth Cymru gyngor cyfreithiol ar ôl hynny, cyn ac ar ôl i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd[40]. Esboniodd yr Ysgrifennydd Parhaol y canlynol:

> *"That legal advice tells me that there is an entitlement, in employment law terms, on the three areas, even if we change the labels around, that were highlighted as part of Shan's departure arrangements. That would be in respect of any time left on the former Permanent Secretary's contract, and indeed on any aspects around annual leave that hadn't been taken, or, indeed, some of the implications that we had originally described as extra-contractual payments as well."*[41]

## Amodi

**67.** Gwnaeth yr Archwilydd Cyffredinol amodi ei farn ynglŷn â 'gwirionedd a thegwch' Cyfrifon 2020-21, oherwydd nad oedd yn gallu sicrhau dogfennaeth ddigonol i ddangos trefniadau'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol ers mis Ebrill 2018. Yn benodol, nid oedd yr Archwilydd Cyffredinol yn gallu cadarnhau'r canlynol[42]:

- ar ba sail y gwnaed y taliad;
- sut y cyfrifwyd y taliad;
- a oedd gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth i wneud y taliad;
- a yw wedi'i gynnwys, neu a ddylai gael ei gynnwys, yn natganiadau ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

---

[39] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 234
[40] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 54
[41] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 235
[42] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 179, paragraff 7

**68.** Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd wedi amodi ei farn am reoleidd-dra'r trefniadau gan nad oedd yn gallu dod i'r casgliad bod gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol hawl i gael y taliad. Yn ei adroddiad ar y Cyfrifon, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn datgan y canlynol:

> *"Ni chadwodd Llywodraeth Cymru gofnodion cyfoes o'i rhesymau dros wneud y taliad, y rhesymeg dros y swm a dalwyd na thystiolaeth o bwy a awdurdododd y taliad. Felly, nid wyf wedi gallu bodloni fy hun bod y taliad wedi'i awdurdodi'n briodol yn unol â fframwaith yr awdurdodau sy'n llywodraethu'r gwariant ac a dynnwyd y gwariant at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd".*[43]

**69.** Mae'n ailadrodd nad oedd esboniad yr Ysgrifennydd Parhaol am y taliad, fel y'i nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu a oedd wedi'i gynnwys yn y Cyfrifon ar gyfer 2020-21, "yn cael ei gefnogi gan dystiolaeth ymataliol" ac nad oedd y dystiolaeth a gafodd yn "cefnogi'r sylwebaeth a nodir yn y Datganiad Llywodraethu". Yn ei Adroddiad er Budd y Cyhoedd, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhestru'r camau a ganlyn y byddai Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella prosesau:

- dogfennaeth well ar gyfer cytundebau y doir iddynt yn yr amgylchiadau hyn fel bod trywydd archwilio digonol.
- adolygu cylch gorchwyl ei Phwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol fel bod cytundeb y Pwyllgor, neu o leiaf y Cadeirydd, yn cael ei geisio ar gyfer taliadau ymadael unigol neu newidiadau arwyddocaol eraill i delerau ac amodau ar gyfer staff ar lefel Cyfarwyddwyr ac uwch.
- cynhyrchu set wedi'i dogfennu o brosesau, y cytunwyd arnynt gyda Chadeiryddion y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol, ar gyfer ymdrin ag unrhyw faterion Adnoddau Dynol arwyddocaol sy'n codi mewn perthynas â'r Ysgrifennydd Parhaol neu aelodau eraill o staff mewn swyddi uchel iawn yn Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ynghylch hysbysu partïon â buddiant eraill.
- gweithio gyda Swyddfa Cabinet y DU i ddatblygu canllawiau penodol ar gyfer rheolaeth llinell ar ysgrifenyddion parhaol yn y cyd-destun datganoledig.

**70.** Mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor ar 9 Rhagfyr 2022, nododd yr Ysgrifennydd Parhaol fod tîm Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda Swyddfa'r Cabinet i ddrafftio

[43] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 173

fframwaith Telerau ac Amodau'r Ysgrifennydd Parhaol, sydd "bellach yn weithredol"[44]. Mae'r llythyr yn nodi fel a ganlyn:

> *"Mae'n nodi rolau, cyfrifoldebau a phrosesau gwneud penderfyniadau ar draws pob rhan o'r swydd yn glir, gan adlewyrchu cyd-destun Llywodraeth Cymru a sicrhau bod y ddau sefydliad yn cael eu cynnwys yn briodol mewn materion yn y dyfodol. Rhoddwyd y fframwaith hwn ar waith cyn dechrau'r gwaith ehangach y mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu ei wneud ar y gydberthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban."*[45]

**71.** Mae'r llythyr yn esbonio y rhoddwyd y fframwaith "ar waith cyn dechrau'r gwaith ehangach y mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu ei wneud ar y gydberthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban."[46]

## Cadw cofnodion a hysbysu

**72.** Mae'r taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn codi nifer o faterion ynghylch y ffordd y caiff penderfyniadau eu dogfennu a'r broses o gadw cofnodion gan Lywodraeth Cymru. Nid dyma'r tro cyntaf i faterion o'r fath godi a chododd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol bryderon ynghylch y materion hyn drwy gydol y Bumed Senedd, gan wneud sylwadau arnynt yn ei Adroddiad Gwaddol.[47]

**73.** Hefyd, ysgrifennodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd at y cyn-Ysgrifennydd Parhaol ym mis Ebrill 2020 i fynegi pryderon ynghylch y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cadw cofnod o benderfyniadau[48], fel rhan o ymchwiliad i ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19. Dywedodd y canlynol wrth ymateb:

> *"O ran cofnodi penderfyniadau a wnaed, rwyf eisoes wedi ysgrifennu at fy holl swyddogion cyfrifyddu ychwanegol i bwysleisio pwysigrwydd cynnal a chadw*

[44] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 9 Rhagfyr 2022
[45] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 9 Rhagfyr 2022
[46] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 9 Rhagfyr 2022
[47] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd
[48] Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus at yr Ysgrifennydd Parhaol, 17 Ebrill 2020

> *cofnodion o'r anghenion sy'n cael eu diwallu, y rhesymau dros wneud penderfyniadau ac unrhyw risgiau posibl."*[49]

**74.** Yn fwy diweddar, nododd yr Archwilydd Cyffredinol faterion tebyg yn ei lythyr at y Pwyllgor ynghylch Llywodraeth Cymru yn prynu Fferm Gilestone:

> *"… ni chadwodd Llywodraeth Cymru gofnod o faterion a drafodwyd gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd mewn amryw gyfarfodydd rhithwir wrth iddi ystyried yr amlinelliad o gynllun busnes Gŵyl y Dyn Gwyrdd a'r broses a arweiniodd at gaffael Fferm Gilestone."*[50]

**75.** Wrth i'r Pwyllgor graffu ar y Cyfrifon, pan ofynnwyd i'r Ysgrifennydd Parhaol sut y gellid gwella'r gwaith o gadw cofnodion ynghylch y rôl yn y dyfodol, dywedodd y canlynol:

> *"I… think that there is something about what is the precision of using policies. In many respects, policies and frameworks are there not just for compliance; they are there to try to steer into consideration, in sometimes quite personal and individual circumstances as well. And I think there has to be some ability to ensure that there is still a level of interpretation. Even with all of the technical advice that is available for the annual Accounts, there is still a subjective and an interpretation aspect about where choices can be made, about how you allocate and align things as well. So, I think we also need to allow that to happen as well. But, absolutely, we need to make sure that we're able to find that balance between the bureaucracy of what you monitor, as well as ensuring that we still remain a delivery focused organisation, to improve services and outcomes for the people of Wales."*[51]

## Ein barn ni

**76.** Credwn fod y rhesymau dros ymadawiad cynnar y cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn parhau i fod yn aneglur. Gellid dadlau y byddai wedi bod yn fuddiol i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol aros yn ei swydd tan ddiwedd cyfnod ei chontract pan oedd Llywodraeth Cymru yn dal i ymateb i bandemig COVID-19.

**77.** Mae rhai o'r trefniadau sy'n gysylltiedig â phenodi'r Ysgrifennydd Parhaol presennol yn peri dryswch ac yn aneglur, gyda chyhoeddiadau ynghylch penodiad Dr Goodall yn hepgor y

---

[49] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 28 Ebrill 2020
[50] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 'Prynu Fferm Gilestone gan Lywodraeth Cymru', 19 Ionawr 2023
[51] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 272

ffaith ei fod yn parhau i fod ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Rydym hefyd yn sylwi, cyn ei benodiad, na wnaeth Llywodraeth Cymru adrodd cyfnod secondiad Dr Goodall o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ei Chyfrifon, heblaw am ddweud ei fod wedi dechrau ar 9 Mehefin 2014[52]. Ni ddarparwyd manylion am hyd ei secondiad chwaith.

**78.** Roedd y broses ar gyfer ôl-lenwi swydd Dr Goodall fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru hefyd yn aneglur ac yn peri pryder i ni. Awgrymwyd i ni fod y broses ar gyfer penodi Judith Paget, secondai arall o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, er bod hynny dros dro, wedi'i chynnal heb ymarfer recriwtio cystadleuol. Er budd tryloywder, byddem yn disgwyl bod pob penodiad ar lefel Cyfarwyddwr Cyffredinol ac uwch yn cael ei wneud yn dilyn hysbyseb gyhoeddus ac ymgyrch recriwtio agored.

**79.** Rydym hefyd o'r farn y bu diffyg tryloywder ynghylch parhad secondiad Dr Goodall ar ôl ei benodi'n Ysgrifennydd Parhaol, yn enwedig gan mai dim ond wrth i ni gasglu tystiolaeth y gwnaed y trefniadau hyn yn glir, yn ogystal â threfniadau secondiad ei olynydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Prif Weithredwr GIG Cymru. Yn anffodus, heb yr esboniadau a ddarparwyd i ni, gallai'r trefniadau hyn gael eu drysu â nifer o drefniadau camu i fyny a threfniadau interim. O ystyried lefel uwch y swyddi hyn, a'r angen am sefydlogrwydd yn y sefydliad y maent yn ei arwain, dylai'r trefniadau hyn fod yn dryloyw.

**80.** Roedd y dystiolaeth a glywyd yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru wedi hysbysebu rôl yr Ysgrifennydd Parhaol ar raddfa gyflog benodol cyn gwneud penodiad ar fand cyflog uwch. Mae hyn yn codi'r cwestiwn a allai Llywodraeth Cymru fod wedi denu ymgeiswyr gwahanol pe bai'r swydd wedi'i hysbysebu ar raddfa gyflog uwch.

**81.** Rydym yn pryderu bod trefniadau o'r fath yn gwneud Llywodraeth Cymru a GIG Cymru yn agored i risg. Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd i ni yn awgrymu, pe bai secondiad Dr Goodall i rôl Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru yn dod i ben, y byddai'n ofynnol i GIG Cymru barhau i dalu Dr Goodall ar ei raddfa gyflog bresennol heb swydd gymesur iddo ymgymryd â hi. Rydym yn amau a yw'n briodol cael secondiadau mor benagored ar gyfer rolau uwch o'r fath.

**82.** Rydym yn cydnabod gwerth trefniadau secondio, boed yn fewnol ac yn allanol, a'r manteision a ddaw yn eu sgil i sefydliadau a staff fel ei gilydd, ond mae'r rhain fel arfer yn drefniadau dros dro neu'n drefniadau sydd â chyfyngiad amser. Mae'r trefniadau yn yr achos hwn, fel y'u disgrifiwyd i ni, yn peri pryderon ehangach ynghylch i ba raddau y mae trefniadau

[52] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2014-15 (Saesneg yn unig), tudalen 4

tebyg eraill o bosibl ar waith ar draws swyddi eraill yn Llywodraeth Cymru a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus, ac a oes angen rhai pwyntiau clir o egwyddor ynghylch y trefniadau hyn.

**83.** Mae'r Pwyllgor yn nodi ei bryderon mewn ymateb i gasgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ynghylch y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn dilyn ei hymadawiad cynnar. Yn benodol:

- Pryderon yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch cyfiawnhad Llywodraeth Cymru dros y "taliad yn lle rhybudd". Mae hyn yn peri pryder arbennig gan na cheisiwyd cyngor cyfreithiol ffurfiol ar yr adeg y cytunwyd ar y taliad ac ni roddodd swyddogion wybodaeth lawn i'r Prif Weinidog, a oedd yn gorfod cymeradwyo'r taliad.

- Y trefniant newydd i ddyfarnu "diwrnodau ymddeoliad rhannol" i'w cymryd ar ddiwedd contract cyflogaeth, y daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad nad oedd yn cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, yn ogystal â thystiolaeth ddogfennol annigonol a diffyg tryloywder.

- Diffyg cofnodion i gadarnhau nifer y "diwrnodau ymddeoliad rhannol" a gronnwyd neu a gymerwyd gan y cyn-Ysgrifennydd Parhaol.

- Y diffyg tystiolaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cydymffurfio â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

**84.** Mae'r Pwyllgor yn synnu o glywed na chafodd y newidiadau yn nhrefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol eu cyfleu i'w rheolwr llinell, Ysgrifennydd y Cabinet, cyn mis Awst 2019 a dim ond mewn gohebiaeth a oedd i'w gweld yn anffurfiol ac yn bersonol yn ôl yr Archwilydd Cyffredinol[53]. Roedd hyn dros flwyddyn ar ôl iddi wneud y cais i "ymddeol yn rhannol" a thua un mis ar bymtheg ar ôl i'r newid cyntaf i'w threfniadau gwaith ddod i rym.

**85.** Yn benodol, mae'r arfer o gael staff ar lefelau is yn gwneud penderfyniadau arwyddocaol ynghylch trefniadau gweithio uwch-swyddog, heb fod staff eraill yn ardystio neu'n cymeradwyo'r penderfyniadau hyn, yn peri pryder. Mae hyn yn arbennig o nodedig o ystyried casgliad yr Archwilydd Cyffredinol y gallai trefniadau gwaith yr Ysgrifennydd Parhaol ar ôl mis Ebrill 2019 fod y tu hwnt i gwmpas polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru, sy'n peri rhagor o bryderon ynghylch priodoldeb y trefniadau hyn.

**86.** Fodd bynnag, pan ofynnwyd am sut y mae Llywodraeth Cymru bellach yn gwneud trefniadau lle y mae staff ar lefelau is yn atebol i gydweithwyr ar lefel uwch, dywedwyd wrthym fod fframwaith telerau ac amodau diwygiedig yn ymdrin â'r mater hwnnw mewn modd amlwg a

[53] Archwilio Cymru, Adroddiad er Budd y Cyhoedd, Taliad i Gyn-Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru pan Derfynwyd ei Chyflogaeth, paragraff 25

phenodol iawn.[54] Rhannwyd copi o'r Fframwaith Telerau ac Amodau diwygiedig â'r Pwyllgor ac mae'n nodi pryd y dylid cyfleu materion sy'n ymwneud â phenderfyniadau Adnoddau Dynol ac i bwy a chydbwysedd y camau a gaiff eu cyflwyno gan Swyddfa'r Cabinet, ochr yn ochr â'r camau a gaiff eu cyflwyno gan Lywodraeth Cymru, fel y cyflogwr[55].

**87.** Rydym yn pryderu bod trefniadau diffygiol ar gyfer cadw cofnodion ynghylch sut y cafodd penderfyniadau eu gwneud wedi arwain at ddiffyg eglurder a chyfleoedd annigonol am waith craffu gan y Pwyllgor hwn, yn enwedig ynghylch y taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Mae'n destun pryder na roddodd Llywodraeth Cymru dystiolaeth gydoesol ddigonol i'r Archwilydd Cyffredinol i gadarnhau'r newid yn nhrefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol ac i gyfiawnhau'r taliad a wnaed ar ei hymadawiad. Fel y nodwyd ym mharagraff 73 o'r adroddiad hwn, mae'r trefniadau diffygiol ar gyfer cadw cofnodion wedi bod yn wendid cyson yng ngweithdrefnau a phrosesau Llywodraeth Cymru ac yn fater a godwyd ar sawl achlysur gan y Pwyllgor a'n rhagflaenodd.

**88.** Cyn belled yn ôl â 2016, cyflwynodd y Pwyllgor a'n rhagflaenodd adroddiad yn y Bedwaredd Senedd ar Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio ac argymhellodd fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, fel mater o frys, fynd i'r afael â'r gwendidau yn ei diwylliant sefydliadol sydd wedi golygu nad yw ei phrosesau cadw cofnodion yn ddigon trylwyr.[56] Rydym yn gofyn pam nad ymdriniwyd â'r gwendidau hyn o hyd.

**89.** Dim ond tuag at ddiwedd mis Tachwedd 2021 y rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Archwilydd Cyffredinol am y digwyddiad ôl-fantolen posibl y byddai angen rhoi sylw iddo. Roedd yr Archwilydd Cyffredinol, erbyn hyn, wedi bod mewn sefyllfa i gymeradwyo'r Cyfrifon ac arweiniodd yr hysbysiad hwyr hwn at gyfres o ddigwyddiadau a achosodd oedi sylweddol wrth gwblhau'r Cyfrifon. Gan ei bod yn amlwg o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod trafodaethau ynghylch y materion yn achosi'r taliad i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol eisoes ar droed erbyn dechrau mis Medi 2021 o leiaf, mae'r Pwyllgor yn parhau i fod yn ansicr a allai'r wybodaeth am y digwyddiad ôl-fantolen fod wedi'i dwyn i sylw Archwilio Cymru ynghynt.

**90.** Credwn fod yr hysbysiad hwyr hwn, ynghyd â'r arferion cadw cofnodion ac adrodd annigonol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi cymhlethu'r broses o archwilio'r Cyfrifon hyn yn sylweddol. Roedd hyn yn golygu bod y Pwyllgor hwn wedi gwneud ei waith craffu'n sylweddol hwyrach nag a fwriadwyd yn wreiddiol, gyda chyfle cyfyngedig i wneud

[54] Cofnod y Trafodion, 6 Hydref 2022, paragraff 247
[55] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 9 Rhagfyr 2022
[56] Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, Ionawr 2016, Argymhelliad 11

argymhellion effeithiol cyn paratoi Cyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22. Roedd hyn, rydym yn teimlo, yn tanseilio agweddau ar y broses graffu yn yr achos hwn, er gwaethaf ein gwaith craffu ar faterion pwysig yn ymwneud â'r farn archwilio amodol.

**91.** Trafododd Pwyllgor Cyllid y Senedd hefyd yr oedi sylweddol cyn gosod Cyfrifon 2020-21 fel rhan o'i waith craffu blynyddol ar Archwilio Cymru a'r Archwilydd Cyffredinol. Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid atom yn pwysleisio bod yr Archwilydd Cyffredinol, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Cyllid, wedi dweud y byddai'n croesawu eglurhad o ddisgwyliadau Aelodau o'r Senedd ohono pe na bai'n gallu cadw at y terfyn amser statudol o bedwar mis ar gyfer cwblhau archwiliad o'r Cyfrifon yn y dyfodol.

**92.** Gan mai'r Pwyllgor Cyllid sy'n gyfrifol am oruchwylio trefniadau llywodraethu Archwilio Cymru a swyddfa'r Archwilydd Cyffredinol, mae o'r farn ei bod yn bwysig ei fod yn cael gwybod yn uniongyrchol am achosion o'r fath ac argymhellodd y canlynol:

> *Argymhelliad 5. Mae'r Pwyllgor yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os na all gwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis.*[57]

**93.** Rydym yn llwyr gymeradwyo'r argymhelliad hwn ac yn gwneud ein hargymhelliad tebyg ein hunain isod. Rydym yn nodi ymateb yr Archwilydd Cyffredinol a'i dderbyniad o argymhelliad y Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â chyfrifon Llywodraeth Cymru[58]. Fodd bynnag, rydym hefyd yn nodi ei sylwadau am yr angen i weithio gyda'r Pwyllgor Cyllid i ddeall disgwyliadau ynghylch cyrff cyhoeddus eraill a chytuno arnynt.

**94.** Rydym yn pryderu am y diffyg tryloywder cyffredinol ynghylch y newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol. Yn benodol, mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus blaenorol yn ystod sesiwn dystiolaeth lafar, rhoddwyd argraff o barhau i weithio'n amser llawn, y daeth i'r amlwg yn ddiweddarach nad oedd hyn yn digwydd. Ni soniwyd ar y pryd am y newidiadau a oedd yn ddiweddarach yn sail i ran o'r taliad a wnaed i'r cyn-Ysgrifennydd Parhaol pan adawodd ei swydd. Mae'n hynod bryderus a siomedig na thynnwyd sylw'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd at y newidiadau hyn pan ofynnodd yr Aelodau'n benodol am eglurder ym mis Hydref 2019.

---

[57] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2022

[58] Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Gwaith Craffu Blynyddol y Pwyllgor Cyllid ar Swyddfa Archwilio Cymru, 19 Ionawr 2023

**95.** Rydym yn nodi ac yn rhannu pryderon y Pwyllgor a'n rhagflaenodd ynghylch atebolrwydd deuol rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, gyda chyfrifoldebau i Ysgrifennydd y Cabinet a Phennaeth y Gwasanaeth Sifil fel rhan o'i rôl fel gwas sifil yn y DU, ac i Brif Weinidog Cymru ac i Lywodraeth Cymru. Mae canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol nad oedd penderfyniadau ynghylch sefyllfa'r Ysgrifennydd Parhaol wedi'u dogfennu'n glir, er gwaethaf cymhlethdodau'r atebolrwydd amrywiol sy'n gysylltiedig â rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, yn peri pryder i ni.

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu i'r Pwyllgor ei diffiniad o 'secondiad', ynghyd â'i pholisïau ar gyfer trefniadau o'r fath, gan gynnwys canllawiau penodol sy'n ymwneud â'r trefniadau ar gyfer Uwch-weision Sifil.

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell bod trefniadau secondiad yn y dyfodol, rhai mewnol ac allanol, sy'n ymwneud â staff ar Fand Cyflog 2 Uwch-wasanaeth Sifil a throsodd (Cyfarwyddwr, Cyfarwyddwr Cyffredinol ac Ysgrifennydd Parhaol, gan gynnwys Prif Swyddogion Deintyddol, Digidol, Meddygol, Nyrsio, Gofal Cymdeithasol, Gwyddonol a Milfeddygol, yn ogystal â Phrif Weithredwyr) yn Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfleu'n glir a'u nodi i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i gyfnodau'r secondiadau.

**Argymhelliad 3.** Pan fo'r Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn ei Chyfrifon a/neu yn ei Datganiad Polisi Tâl yn datgelu gwybodaeth am aelodau unigol o staff sydd ar secondiad, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adrodd cyfnod y trefniadau yn y dogfennau cyhoeddedig hynny.

**Argymhelliad 4.** Nodwn y disgwylir i broses benodi gynhwysfawr ar gyfer swydd Prif Weithredwr y GIG yng Nghymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddechrau yn 2023. Rydym yn argymell bod y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn cael amserlen a manylion y broses, gan gynnwys y dull o recriwtio h.y. a fydd y rôl yn cael ei hysbysebu'n fewnol neu'n allanol ac a fydd y swydd yn cael ei llenwi dros dro neu'n barhaol.

**Argymhelliad 5.** Mae'n hanfodol y tynnir sylw'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus i newidiadau sylweddol sy'n ymwneud â rôl yr Ysgrifennydd Parhaol cyn gynted â phosibl i sicrhau gwaith craffu amserol a phriodol ar faterion o'r fath. Mae'n hynod bryderus, pan ofynnwyd am newidiadau i drefniadau gwaith y cyn-Ysgrifennydd Parhaol yn 2019, na chawsant eu datgelu i'r Pwyllgor a'n rhagflaenodd. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn dangos lefelau uwch o dryloywder wrth ymgysylltu â'r Pwyllgor ar faterion o ddiddordeb sylweddol fel y mater hwn yn y dyfodol.

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei harferion ar gyfer adrodd a chadw cofnodion i sicrhau bod penderfyniadau mewnol ynghylch rôl yr Ysgrifennydd Parhaol, ynghyd â rolau eraill ar lefel Cyfarwyddwr neu uwch, yn cael eu dogfennu'n glir. Mae hyn yn arbennig o bwysig pan fo polisïau Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru yn cael eu cymhwyso gan gyflogeion ar lefel is. Dylid rhannu canlyniadau'r adolygiad hwn â'r Pwyllgor hwn, pan ddaw i ben.

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru gynnwys manylion newidiadau o ran sylwedd yn nhrefniadau gwaith neu dâl yr Ysgrifennydd Parhaol neu'r Cyfarwyddwr Cyffredinol, gydag esboniad o'r rheswm am y newidiadau hyn. Dylid cwblhau'r gwaith hwn, fel mater o drefn, yn y Cyfrifon sy'n berthnasol i'r flwyddyn gyfrifyddu pan wnaed y newid. Os nad yw hyn yn bosibl, dylid hysbysu'r Pwyllgor hwn yn ysgrifenedig am newidiadau perthnasol, gydag esboniad pam na chafodd y wybodaeth hon ei chynnwys yn y set berthnasol o Gyfrifon.

**Argymhelliad 8.** Rydym yn nodi'r gwendidau a godwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'n rhagflaenodd yn niwylliant sefydliadol Llywodraeth Cymru sydd wedi arwain at ddiffygion o ran cadernid ei phrosesau cadw cofnodion a sut y mae'r themâu hyn wedi codi eto yn ein gwaith ni. Fel y cyfryw, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau penodol i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ofynion ei phrosesau cadw cofnodion mewnol gan nad ydym yn disgwyl i brosesau cadw cofnodion gwael fod yn thema sy'n codi dro ar ôl tro. Rydym yn gofyn i Lywodraeth Cymru roi manylion i ni am y camau y bydd yn eu cymryd i wella ei phrosesau cadw cofnodion.

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell bod yr Archwilydd Cyffredinol yn hysbysu Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus yn ffurfiol, yn ysgrifenedig, os nad yw'n gallu cwblhau archwiliad o fewn y terfyn amser statudol o bedwar mis[59].

**Argymhelliad 10.** Rydym yn croesawu'r gwaith ehangach y mae Swyddfa'r Cabinet yn bwriadu ei wneud ar y gydberthynas rhwng Swyddfa'r Cabinet ac Ysgrifenyddion Parhaol Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor pryd y mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud ac yn darparu rhagor o wybodaeth i ni am yr hyn y bydd y gwaith hwn yn ei gynnwys, yn ogystal ag amserlenni i'w gwblhau a'r allbynnau.

[59] Adroddiad y Pwyllgor Cyllid, Gwaith craffu Blynyddol ar Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, Tachwedd 2022

# 5. Cymorth COVID-19 i Fusnesau

## Cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru

**96.** Adroddwyd mai £5.3 biliwn oedd gwariant wrth gefn Llywodraeth Cymru mewn ymateb i COVID-19 yn 2020-21[60]. Yn ogystal â'r cymorth a ddarparwyd i fusnesau gan Lywodraeth y DU, dyrannodd Llywodraeth Cymru gyllid ar gyfer anghenion penodol economi Cymru. Nododd Llywodraeth Cymru ddau ganlyniad a fwriadwyd ar gyfer hyn: helpu busnesau i oroesi gostyngiadau mewn refeniw o ganlyniad i COVID-19 a mesurau'r cyfnodau clo; a chynyddu'r posibilrwydd y byddai busnesau'n goroesi i ddiogelu swyddi.

**97.** Yn ei adroddiad ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn nodi bod y meini prawf cymhwysedd yn fwy penodol ar gyfer cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, a chamau diweddarach y cynlluniau a weinyddwyd gan awdurdodau lleol, sef cyfanswm o £893 miliwn, i dargedu darpariaeth y cymorth grant.[61] Mae'n nodi y bu'n ofynnol i fusnesau wneud cais am y cynlluniau pan gawsant eu cyhoeddi, gan ychwanegu'r canlynol:

> *"Er bod rhai gwiriadau ar rai o'r meini prawf cymhwysedd cyn i grantiau gael eu talu, nid oedd y gwiriadau hyn yn systematig nac wedi'u dogfennu bob amser. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd yn dibynnu ar hunanddatganiadau ar gyfer rhai agweddau ar y meini prawf cymhwysedd ac mae'n bwriadu gwirio rhai o'r rhain yn ddiweddarach. Mae amcangyfrif Llywodraeth Cymru o lefel y twyll a'r camgymeriad posib yn y grantiau hyn yn cael ei ddatgelu yn y Datganiad Llywodraethu, ond mae ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn o ganlyniad i gyfyngiadau data. Er bod lefel y twyll a'r gwall yn y grantiau hyn yn ansicr, rwy'n fodlon bod digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad yw hyn yn gyfystyr â gwariant materol yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru."*[62]

**98.** O ei adroddiad cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 (y Memorandwm), mae Archwilio Cymru yn nodi'r hyn a ganlyn:

> *"Fel a nodwyd yn ei Datganiad Llywodraethu 2020-21, mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod y rheolaethau a roddodd ar waith mewn perthynas ag ymgeisio a*

---

[60] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-2021, tudalen 53
[61] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 182, paragraff 29
[62] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 182, paragraff 29

> *dyfarnu'n gymesur, yn effeithiol, a'u bod wedi darparu mesurau diogelu digonol ar gyfer arian cyhoeddus."*[63]

**99.** Gwnaethom ofyn am eglurder ynghylch effeithiolrwydd y gwiriadau ar rai o'r meini prawf cymhwysedd a chawsom yr ymateb a ganlyn gan yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"We don't accept the general point [...]. Of course, systems needed to develop over time, and there was a wide variety of grant mechanisms that were put in place, from small to large, and inevitably, there will have been some issues along the way, including, I have to say, for some of the smaller schemes. But, we were responding in days, further to lockdown, in an exceptional manner. I think we tried [...] to ensure that the design was able to avoid some of the potential fraud and error that could have occurred. There was actually a very high rejection rate, so we were avoiding some of these things in advance through the process that was established. Our head of counter fraud in Welsh Government has actually confirmed and given his own opinion that the actual role of the delivery schemes was impressive in respect of that level of control that happened."*[64]

**100.** Cawsom ragor o eglurder gan swyddog, fel a ganlyn:

> *"I think Audit Wales, for example, may have been referring to the fact that in the very early phases of the economic resilience fund, we didn't keep some of the backing data for eligibility for the microbusinesses, which is the smallest element of the funding we did. That was purely a systems capacity issue, so we just weren't able to build a system quick enough to collate."*[65]

## Gwaith Monitro ar ôl Cwblhau (PCM)

**101.** Nod gwaith 'Monitro ar ôl Cwblhau' Llywodraeth Cymru ("PCM") yw sicrhau y cedwir at delerau ac amodau grant a mynd i'r afael ag achosion o ddyfarniadau anghywir. Mae hefyd yn cael ei ddefnyddio i asesu perfformiad y busnes o ran ei ymrwymiadau fel nifer y swyddi a warchodir, gyda'r bwriad o gymryd camau adfer pan fo'n berthnasol. I ddechrau, penderfynwyd y byddai gwaith PCM yn cael ei wneud 12 mis ar ôl y taliad.

[63] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, tudalen 7, paragraff 11
[64] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, paragraff 198
[65] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, paragraff 200

**102.** Gan weithio ochr yn ochr â'i thîm Monitro a Diwydrwydd Dyladwy presennol, sefydlodd Llywodraeth Cymru dîm newydd o ddeg aelod o staff i wneud gwaith PCM, gan ganolbwyntio ar grantiau i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig. Sefydlodd Llywodraeth Cymru y tîm newydd am ddwy flynedd i ddechrau, gydag wyth o'r deg aelod yn cael eu recriwtio'n allanol am gyfnod penodol sy'n dod i ben yn haf 2023. Mae'r gwaith monitro ar gyfer busnesau mwy yn cael ei wneud fel rhan o drefniadau monitro 'busnes fel arfer' Llywodraeth Cymru ar gyfer y cymorth ariannol i fusnesau.

**103.** Gwnaethom holi swyddogion ynghylch yr amserlenni ar gyfer cwblhau gwaith PCM ar gyfer camau diweddarach y cymorth COVID-19 i fusnesau, pa adnoddau sydd wedi'u nodi ar ei gyfer a'r prif risgiau sy'n gysylltiedig ag oedi wrth ei gwblhau. Dywedodd swyddogion wrthym fod tîm pwrpasol o 10 aelod o staff wedi'i sefydlu, y tu hwnt i'r tîm arferol sy'n gwneud y gwaith monitro ar ôl cwblhau fel rhan o weithgarwch grantiau Llywodraeth Cymru. Dywedwyd y canlynol wrthym:

> *'... [there is] another 18 months to two years of post-completion on this work. It is a challenging area and, again, we need to really focus on the higher areas of risk where we possibly can and our objective is to release people from terms as quickly as we can'.*[66]

**104.** Cawsom y sicrwydd a ganlyn gan yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *"we'll make sure that we have a mechanism to support the next 18 months to two years as necessary".*[67] *O ran y penodiadau cyfnod penodol y disgwylir iddynt ddod i ben yn haf 2023, dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr angen i barhau â'r swyddi hynny wedi'i wneud yn glir ac y byddai Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod ganddi'r mecanweithiau ar waith i barhau â'r trefniadau hynny hefyd.*[68]

**105.** Yn yr un modd â'r ffordd y cafodd y cynllun cymorth ei ddylunio, mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith PCM hyd yn hyn wedi amrywio yn ôl maint y busnes sy'n cael y cymorth.

**106.** Yn ôl Archwilio Cymru, "Ar ôl bod trwy gynllun peilot pellach, roedd gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau ar gyfer cam 3 yn mynd rhagddo gyda chynlluniau i fwrw ymlaen â'r trefniadau ar

[66] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, paragraff 234
[67] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, paragraff 236
[68] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2023, paragraff 238

gyfer camau diweddarach o gymorth dros yr haf"[69]. Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn nodi y "Bydd gwiriadau ôl-sicrwydd ac ôl-weithredol yn erbyn gwaith sy'n ymwneud â COVID-19 yn parhau am gryn dipyn o amser"[70].

## Twyll a Gwall

### Amcangyfrif o dwyll a gwall 2020-21

**107.** O ran y cam cyntaf o grantiau a rhyddhad ardrethi, a weinyddwyd gan awdurdodau lleol, yr oedd eu cyfanswm yn £1.1 biliwn, ni chanfu canlyniadau profion Archwilio Cymru ar samplau "unrhyw faterion cymhwystra sylweddol gyda thaliadau a wnaed dan y cynlluniau hyn."[71]

**108.** Roedd y cynlluniau eraill, yr oeddent yn werth cyfanswm o £893 miliwn, yn cynnwys meini prawf cymhwysedd ehangach. Yn hydref 2021, pan oedd Archwilio Cymru wedi cwblhau'n "sylweddol" ei archwiliad o'r Cyfrifon ar gyfer 2020-21, nid oedd wedi:

> *"... gallu cael digon o dystiolaeth archwilio briodol i gadarnhau bod y grantiau hyn wedi cael eu talu i fusnesau cymwys ac nid oedd Llywodraeth Cymru wedi coladu digon o wybodaeth y gellid ei defnyddio i feintioli lefel bosibl y twyll a gwall ar draws y grantiau hyn."*[72]

**109.** Yn ei Chyfrifon ar gyfer 2020-21, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r canlynol:

> *"Ar y cyfan, o'r achosion o dwyll a adroddwyd a'r PCM [gwaith Monitro ar ôl Cwblhau] a gynhaliwyd, mae ystod twyll a gwall o rhwng 0.08% a 4.17% wedi'i hasesu."*[73]

**110.** Mae'n awgrymu mai rhwng £0.7 miliwn a £37.2 miliwn yw ystod bosibl y risg o dwyll a gwall ar gyfer y dyraniad o £893 miliwn. Mae'n nodi bod hyn "ymhell o dan y trothwy ar gyfer perthnasedd yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru".

[69] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, paragraff 23, tudalen 13
[70] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 60
[71] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, tudalen 16, paragraff 36
[72] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, tudalen 16, paragraff 36
[73] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 141

**111.** Nododd Archwilio Cymru nad yw rhai awdurdodau lleol wedi nodi achosion o dwyll a gwall. Gan dynnu sylw at yr un awdurdod lleol lle y cynhaliwyd gwiriadau Menter Twyll Genedlaethol ychwanegol (a lle y nodwyd twyll a gwall a oedd yn werth cyfanswm o £570,000), dywedodd Archwilio Cymru y byddai dim achosion o dwyll a gwall o gwbl yn ymddangos "yn annhebygol yn ymarferol, er nad yw achosion o'r fath wedi cael eu canfod hyd yma o bosibl".[74] Gwnaethom ofyn i swyddogion a oedd Llywodraeth Cymru wedi annog awdurdodau lleol eraill i fanteisio ar y gwiriadau Menter Twyll Genedlaethol ychwanegol a gynigiwyd gan dîm Menter Twyll Genedlaethol y DU i bob awdurdod lleol, ond am gost.

**112.** Dywedwyd wrthym fod yr opsiwn o gynnal gwiriadau Menter Twyll Genedlaethol ychwanegol wedi'i godi a'i fod ar gael i'r holl awdurdodau. Fodd bynnag, roedd gan awdurdodau gwahanol anghenion amrywiol ar ei gyfer ac esboniodd swyddogion fel a ganlyn:

> *"... if you had a really well-cleansed non-domestic rates database, the national fraud initiative was not as useful, and also in its application. Of course, we're funding for the majority of authorities buildings and physical properties that you can see and feel. Where it has real value is where, for example, you're able to apply a national insurance number or a personal check, which wasn't always possible for a big group of companies. So, yes, it was made available. Not all of them used it, as you've identified. Some used it extremely effectively."*[75]

### Canfyddiadau Archwilio Cymru

**113.** Yn ei Dystysgrif Archwilio, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y datgeliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu gwneud ynghylch y lefel amcangyfrifedig o dwyll a gwall mewn grantiau busnes. Mae'n dweud bod ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn o ganlyniad i gyfyngiadau data.

**114.** Yn ei Femorandwm, mae Archwilio Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth. Mae'r ansicrwydd yn codi o'r data y mae Llywodraeth Cymru wedi'u defnyddio a sut y mae'r gyfradd wedi'i chyfrifo, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Cyfrifodd Llywodraeth Cymru gyfradd canran yr achosion o gyfanswm y grantiau a ddyfarnwyd, yn hytrach na gwerth yr achosion mewn cymhariaeth â'r gwariant cyffredinol.

[74] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, paragraff 40, tudalen 17
[75] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 184

- Mae'r amcangyfrif is wedi deillio o'r 142 achos o dwyll a gwall a nodwyd mewn 16 o 'ffurflenni twyll' gan awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi amcanu'r ffigur hwn i amcangyfrif 195 o achosion (0.08 y cant) ar draws 246,127 o grantiau unigol a ddyfarnwyd gan awdurdodau lleol.
- Cyfrifwyd yr amcangyfrif uwch o'r un adferiad hyd yn hyn o 24 o ymatebion arolwg, a gafwyd gan fusnesau bach a chanolig a gefnogir drwy Gam 3 o'r Gronfa Cadernid Economaidd, a oedd yn cyfateb i wall 4.17 y cant.
- Adlewyrchodd yr amcangyfrifon themâu sy'n dod i'r amlwg nad ydynt, o bosibl, yn gynrychioliadol o'r boblogaeth.

**115.** Yn ei Adroddiad ar Gyfrifon 2020-21, daw'r Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad a ganlyn:

> *"Er bod lefel y twyll a'r gwall yn y grantiau hyn yn ansicr, rwy'n fodlon bod digon o dystiolaeth i ddod i'r casgliad nad yw hyn yn gyfystyr â gwariant materol yng nghyfrifon Llywodraeth Cymru."*[76]

**116.** Yn ei Femorandwm, mae Archwilio Cymru yn meintioli mai £175 miliwn yw lefel y perthnasedd a bennwyd ar gyfer Cyfrifon 2020-21.

**117.** Gwnaethom holi swyddogion am eu hystod twyll a gwall asesedig rhwng 0.08 y cant a 4.17 y cant, wedi'i meintioli i amrywio rhwng £0.7 miliwn a £37.2 miliwn ac a oedd modd dadgyfuno rhwng yr hyn a oedd yn dwyll a'r hyn a oedd yn wall. Esboniodd swyddogion y canlynol:

> *"that is absolutely feasible and possible. We can do it in the NDR, but we'd have to go back and break it out. So, at the moment, I don't hold that total data. But as we compile 2021-22 data, we will be able to break out fraud and different classifications. I'd suggest eligibility and fraud is a splitable number, yes".*[77]

**118.** Gwnaethom ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am ragor o wybodaeth am ei chyfrifiadau. Wrth wneud hynny, gwnaethom gyfeirio at ddull Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) Llywodraeth y DU. Rydym yn nodi bod BEIS wedi nodi manylion am gyfrifo ei hamcangyfrifon twyll a gwall mewn perthynas â grantiau COVID-19 Llywodraeth y DU yn ei Hadroddiad Blynyddol a'i Chyfrifon ar gyfer 2020-21, ac nad oedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud hynny. Roeddem hefyd yn bryderus o glywed nad yw Llywodraeth Cymru yn dal data

[76] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru, tudalen 182
[77] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 189

manwl yn nodi'r gwahaniaeth rhwng twyll a gwall ar hyn o bryd a gwnaethom holi sut y gellid cyfrifo amcangyfrifon twyll a gwall hebddynt.

**119.** Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, datganodd Llywodraeth Cymru fod y lefel amcangyfrifedig bosibl o ran twyll a gwall yn cael ei chyfrifo ar sail gwybodaeth a geir gan awdurdodau lleol. Casglwyd y wybodaeth hon o lenwi arolwg a oedd yn edrych ar flwyddyn ariannol 2020-2021 ar gyfer y cynlluniau a weinyddir gan yr awdurdodau lleol a'r gwaith Monitro ar ôl Cwblhau (PCM) a wnaed bryd hynny ar gyfer cynlluniau'r Gronfa Cadernid Economaidd a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru.

**120.** Nododd y llythyr nad oes gan Lywodraeth Cymru y rhaniad data o'r amcangyfrif rhwng twyll a/neu wall ond nid adroddodd fod achosion o dwyll wedi'u nodi hyd yn hyn yn y PCM ar y Gronfa Cadernid Economaidd a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn rhannu'r data ymhellach, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai angen iddi gysylltu â thimau'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rhoddodd y llythyr rywfaint o eglurder ar sut y cyfrifwyd cyfraddau twyll a gwall a gwybodaeth i wahaniaethu rhwng achosion yn ymwneud â chymhwysedd ac achosion o dwyll a ganfuwyd.

**121.** Gwnaethom ofyn i swyddogion Llywodraeth Cymru a oeddent yn disgwyl adrodd ar yr amcangyfrif o dwyll a gwall yn y Datganiad Llywodraethu ar gyfer 2021-22 ac os felly, a oeddent yn mynd i wneud newidiadau i sut y maent yn cyfrifo'r amcangyfrif hwnnw yn dilyn y canfyddiadau ym Memorandwm Archwilio Cymru.

**122.** Cadarnhaodd swyddogion mai'r bwriad yw cyhoeddi amcangyfrif ar dwyll a gwall yng Nghyfrifon 2021-22, ond nid oeddent yn disgwyl llawer o newid yn yr hyn a adroddwyd ar sefyllfa 2021[78]. Er nad yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl gwneud newidiadau i sut y mae'r amcangyfrif yn cael ei gyfrifo, mae swyddogion wedi myfyrio arno a byddant yn dal i geisio dysgu am y methodolegau a chasglu adborth wrth wneud hynny[79].

**123.** O ran diweddaru'r amcangyfrifon i adlewyrchu gwybodaeth gan awdurdodau lleol, dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi gweithredu rhai newidiadau a'i bod yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella'n barhaus yn yr hyn y mae'n ei wneud ac yn ei gyflawni[80].

**124.** Rydym yn nodi yr adroddodd Archwilio Cymru yn ei Memorandwm fod Llywodraeth Cymru, ym mis Gorffennaf 2022, ar gamau amrywiol gyda gwaith PCM ar gyfer cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda gweithgarwch ar y gweill hyd at Gam 3 a rhagor o

[78] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 243
[79] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 245
[80] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 251

weithgarwch wedi'i gynllunio. Gwnaethom ofyn am esboniad pam nad oedd PCM wedi’i gwblhau 12 mis ar ôl talu.

**125.** Cawsom wybod nad oedd Llywodraeth Cymru wedi rhagweld y byddai'n dal i ddarparu cymorth COVID-19 ddwy flynedd ar ôl iddo gychwyn, a bod cyfyngiadau'n dal i fod ar waith 12 mis ar ôl Cronfa Cadernid Economaidd 1 a 2. Dywedodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *“… if we had conducted a 12-month review on all those companies, many of them were actually still closed 12 months after the event. So, in effect, we just had to respond to events. I thought it would be all done and dusted by July 2020. Actually, in reality, as we mentioned, it was two years' delivery over eight phases, and 300,000 grants.”*[81]

**126.** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru roi diweddariad i ni am gynnydd a chanlyniadau PCM ar gyfer Camau 1 a 2 i'n galluogi i gymharu'r sefyllfa bresennol â'r sefyllfa ym mis Gorffennaf, fel y nodwyd ym Memorandwm Archwilio Cymru. Rhoddwyd y wybodaeth hon mewn gohebiaeth ysgrifenedig ac mae wedi’i nodi isod:

Sefyllfa ym mis Gorffennaf 2022 (Memorandwm Archwilio Cymru)

Ym mis Gorffennaf 2022 roedd timau PCM y Gronfa Cadernid Economaidd wedi:

- cyhoeddi 9,094 o arolygon i ficrofusnesau a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chael ffurflenni gan 3029 (33 y cant).
- cyhoeddi 2,527 o arolygon i fusnesau bach a chanolig (BBaCh), a chael ffurflenni gan 1,370 (54 y cant) – nid oedd y PCM llawnach ar gyfer y camau hyn wedi'i gwblhau.
- cyhoeddi ceisiadau am wybodaeth i 52 o fusnesau mawr, a chael ffurflenni gan 41 (79 y cant).
- Ar ôl bod drwy gynllun peilot arall, roedd gwaith Monitro ar ôl Cwblhau ar gyfer cam 3 ar y gweill gyda chynlluniau i fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer camau cymorth diweddarach dros yr haf.

Sefyllfa ym mis Tachwedd 2022 (Llywodraeth Cymru)

[81] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 205

- Ym mis Tachwedd 2022, mae timau PCM y Gronfa Cadernid Economaidd wedi:

- cyhoeddi 9,094 o arolygon i ficrofusnesau a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chael ffurflenni gan 3029 (33 y cant).

- cyhoeddi 1,257 o arolygon i BBaCh a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2, a chael ffurflenni gan 421 (ymateb 33 y cant).

- cyhoeddi 1,270 o geisiadau am wybodaeth lawnach am y PCM i BBaCh a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2 gyda 599 o ymatebion wedi'u hystyried ar hyn o bryd a 466 o achosion wedi'u cau (cyfradd gau 36 y cant).

- cyhoeddi ceisiadau am wybodaeth i 52 o fusnesau mawr a gefnogwyd yn ystod camau 1 a 2 gyda 46 o achosion wedi'u cau (88 y cant)

**127.** Nid yw'n glir o'r ffigurau pa gynnydd sydd wedi'i wneud gan fod manylion ar gyfer BBaCh wedi'u dadansoddi'n wahanol.

**128.** Mae'r Ysgrifennydd Parhaol yn datgan, yn ei lythyr, ei bod yn anodd pennu dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r gweithgarwch hwn gan ei fod yn "dibynnu i raddau helaeth ar gyflymder ac ansawdd yr ymatebion a geir gan y busnesau"[82]. O ystyried lefel isel y cyfraddau ymateb yn y tabl uchod, mae'n anodd penderfynu a all y canlyniadau o'r ymatebion a gafwyd gynrychioli'r bobl nad ydynt wedi ymateb.

**129.** Gwnaeth y Pwyllgor ofyn faint o gyllid anghymwys neu ddwbl roedd Llywodraeth Cymru wedi'i nodi a faint roedd wedi llwyddo i'w adfer. Cawsom wybod bod tua £2 filiwn o wariant[83] wedi'i adfer hyd yn hyn. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod hyn y tu ôl i'r hyn a ddisgwyliwyd a bod Llywodraeth Cymru yn dal i fyny ac y byddai'n parhau i wneud hynny nes ei gwblhau.[84]

**130.** Rydym yn nodi yr adroddodd Archwilio Cymru, yn ei femorandwm, fod £1.6 miliwn wedi'i adfer o PCM ar gamau 1 a 2. Roedd hyn yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i archwilwyr gan Lywodraeth Cymru a'r sefyllfa ym mis Gorffennaf 2022[85]. Mewn tystiolaeth lafar, adroddwyd y ffigur £2 filiwn i'r Pwyllgor gan yr Ysgrifennydd Parhaol. Gallai'r cynnydd hwn adlewyrchu ffigur diweddarach, ond nid yw'n cyd-fynd â'r ffigur a nodwyd mewn llythyr dilynol gan yr

[82] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol, 9 Rhagfyr 2022
[83] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 209
[84] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 210
[85] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, tudalen 17, paragraff 38

Ysgrifennydd Parhaol ym mis Rhagfyr 2022[86]. Mae'n ymddangos bod y data a gyflwynwyd yn y llythyr yn awgrymu mai dim ond erbyn mis Tachwedd 2022 roedd Llywodraeth Cymru wedi adfer £1.06 miliwn o ran arian a gafodd ei adfer o'r Gronfa Cadernid Economaidd a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru. Fel y cyfryw, ni fu'n bosibl cysoni'r wybodaeth a roddwyd i ni o'r blaen ac mae angen egluro'r ffigurau hyn.

**131.** O ran gwaith yn y dyfodol, mae Archwilio Cymru yn dweud y canlynol:

> *"Ar ôl bod trwy gynllun peilot pellach, roedd gwaith Monitro Ar Ôl Cwblhau ar gyfer cam 3 yn mynd rhagddo gyda chynlluniau i fwrw ymlaen â'r trefniadau ar gyfer camau diweddarach o gymorth dros yr haf."*[87]

**132.** Rydym yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau PCM o fewn yr amserlen a bennwyd. Roedd camau 1 a 2, a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu gweithredu rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2020[88]. Rydym yn cydnabod ei bod wedi parhau i gefnogi busnes ond dros ddwy flynedd ar ôl i'r cynlluniau gael eu gweithredu, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cwblhau PCM o hyd.

## Cynlluniau awdurdodau lleol

**133.** Er mwyn galluogi ymateb cyflym, gweinyddodd Llywodraeth Cymru grantiau dewisol a phenodol ei hun, ond defnyddiodd hefyd y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru fel asiantiaid i weinyddu rhai grantiau, yn bennaf grantiau ardrethi annomestig sy'n gysylltiedig ag eiddo, ochr yn ochr â rhyddhad ardrethi.

**134.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer Cynllun Grant Ardrethi Annomestig COVID-19. Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol yn gallu defnyddio disgresiwn ynghylch cymhwysedd. Mae Archwilio Cymru yn cyfeirio'n benodol at y disgresiwn sy'n ymwneud â llety hunanddarpar, a newidiadau mewn canllawiau amdano.

**135.** Yn ei Femorandwm, mae Archwilio Cymru yn gosod paramedrau'r disgresiwn a roddwyd i awdurdodau lleol:

[86] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 9 Rhagfyr 2022
[87] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, tudalen 13
[88] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, Atodiad 1

> *"Fel gyda'r cynlluniau a weinyddwyd gan Lywodraeth Cymru, fe wnaeth y meini prawf hyn esblygu ar draws ac weithiau o fewn camau unigol o gymorth. Er enghraifft, yn gynnar yn y pandemig ym mis Ebrill 2020, fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau wedi'u diweddaru a oedd yn nodi meini prawf penodol mewn perthynas â llety hunanarlwyo a chymhwystra ar gyfer cymorth grant pan godwyd pryderon ynghylch ffordd ymwared bosibl mewn perthynas â pherchnogaeth ar ail gartrefi. Serch hynny, roedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddyfarniadau grant yn pwysleisio bod penderfyniadau terfynol i roi cymorth grant yn dibynnu ar ddisgresiwn yr awdurdod lleol yn y pen draw gyda'r nod o roi cymorth i fusnesau diledryw yr effeithiwyd yn negyddol arnynt".*

**136.** Ymhellach, nododd Archwilio Cymru y canlynol:

> *"Rydym yn ymwybodol bod y cwestiwn ynglŷn â disgresiwn wedi codi rhai pryderon ynghylch cysondeb o ran y dull a gymhwyswyd gan wahanol awdurdodau lleol, gan ystyried eu hamgylchiadau penodol hwy a chan gynnwys cyfyngiadau ymarferol a oedd yn ymwneud â'r adnoddau yr oedd eu hangen i brosesu a gwirio ceisiadau mewn modd amserol. Yn y sesiwn lawn ar 26 Ionawr 2021, fe wnaeth Prif Weinidog Cymru gadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru, sef "Bydd disgresiwn yn golygu bod rhai awdurdodau lleol yn mynd ati i wneud hynny mewn ffyrdd nad yw eraill yn ei wneud. Dyna natur disgresiwn."*[89]

**137.** Ychwanegodd fod Llywodraeth Cymru wedi cael peth gwybodaeth gan awdurdodau lleol ond:

> *"... nid yw wedi ceisio gwerthuso'n ffurfiol maint neu arwyddocâd llawn unrhyw wahaniaethau yn y dulliau a fabwysiadwyd, boed o ran y modd y dyluniodd awdurdodau eu systemau rheolaeth ar adeg ymgeisio, eu penderfyniadau yn y pen draw ynghylch dyfarnu grantiau, neu eu trefniadau ar gyfer monitro ar ôl talu."* [90]

**138.** Gwnaethom holi Llywodraeth Cymru ynghylch maint cyffredinrwydd neu amrywiadau ar draws awdurdodau lleol o ran sut roeddent yn defnyddio eu disgresiwn a, phan oedd

[89] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, paragraff 29, tudalen 14
[90] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, paragraff 30, tudalen 14

gwahaniaethau yn y dull, pa mor gyfforddus oedd Llywodraeth Cymru gyda'r rhain, yn enwedig o ystyried y canllawiau wedi'u diweddaru ynghylch llety hunanddarpar.

**139.** Esboniodd un o swyddogion Llywodraeth Cymru fod pob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithredu yn unol â rheolau cynllun cyffredin ac y cytunwyd arnynt, fel roedd yn ofynnol iddynt.[91] Roedd swyddogion yn hyderus bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn gyson ar y cyfan a'r canlynol:

> *"... [Welsh Government] engaged throughout with the 151s and also had a trusted group of 151s, which was designed to use those difficult cases and push out core messages".*

**140.** Yn benodol mewn perthynas â busnesau hunanddarpar, clywsom yn gynnar iawn yn y cynllun y nodwyd problem benodol bod Llywodraeth Cymru am gefnogi busnesau hunanddarpar, ond nid perchnogion ail gartrefi o reidrwydd, a oedd yn gofrestredig gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar gyfer rhyddhad ardrethi busnesau bach. Felly, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ychwanegol a rheolau cymhwysedd diwygiedig tua mis Ebrill 2020, er mwyn ymdrin â'r broblem.

**141.** Gwnaethom godi pryderon, ar ôl i'r canllawiau diwygiedig gael eu cyhoeddi, fod llawer o fusnesau hunanddarpar dilys wedi cysylltu â'u Haelodau o'r Senedd i godi pryderon nad oedd y canllawiau'n cael eu cymhwyso'n gyson ar draws awdurdodau lleol.

**142.** Derbyniodd y swyddogion fod hyn yn broblem ond ailadroddwyd bod canllawiau yn cael eu cyhoeddi'n gyson i bob un o'r 22 o awdurdodau lleol ar gyfer gweithredu'r cynllun. Fodd bynnag, clywsom y canlynol:

> *"... within that, [...], 'This is not a black-and-white position', discretion was applied to those 151 officers, who are the accounting officers in that sense—and discretion is exactly that—and they had discretion to apply those rules sensibly."*[92]

**143.** Dywedwyd wrthym fod Llywodraeth Cymru am gefnogi pob busnes cymwys a oedd wedi cau a/neu bob un roedd rheoliadau COVID-19 wedi cyfyngu'n ddifrifol arno, a chymhwyso'r meini prawf mor gyson â phosibl.[93]

---

[91] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 150
[92] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 153
[93] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 153

**144.** Gwnaethom ofyn i swyddogion a allent gadarnhau i ba raddau roedd disgresiwn yn gymwys a pha iawn oedd ar gael i fusnesau dilys na chafodd gymorth yr oedd ganddynt hawl iddo. Datganodd swyddogion y gallai achosion o'r fath gael eu cyfeirio i swyddogion Llywodraeth Cymru i'w hystyried.[94]

**145.** O ran sicrwydd dros grantiau i awdurdodau lleol, yn ei Chyfrifon ar gyfer 2018-19, adroddodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi penderfynu dileu'r angen am archwiliad allanol o grantiau a ddarparwyd ganddi i awdurdodau lleol. O 2019-20, byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd i'r Swyddog Adran 151 (A151) neu'r Prif Swyddog Cyllid.

**146.** Ar gyfer ei chymorth COVID-19 i fusnesau a weinyddwyd gan awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru yn dweud ei bod wedi cael sicrwydd "trwy gyfuniad o fecanweithiau a ddarparwyd gan swyddogion A151 a’r fframwaith rheolaeth a roddwyd ar waith gan Lywodraeth Cymru ar gyfer pob ymyriad penodol."[95] Roedd y rhain yn cynnwys ardystio hawliadau gan swyddogion Adran 151 awdurdodau lleol a chyflwyno gwybodaeth monitro reolaidd, yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd â Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol, a ddarparodd oruchwyliaeth "fyw" a chyfleu unrhyw faterion arwyddocaol a oedd yn codi".

**147.** Adroddodd Archwilio Cymru, ym mis Gorffennaf 2022, fod Llywodraeth Cymru wedi cael ffurflenni gan swyddogion A151 o 19 o'r 22 o awdurdodau lleol ar gyfer 2020-21. Roedd deg o'r rhain yn ymwneud â cham cyntaf y grantiau o fis Mawrth 2020 yn unig. Nododd Archwilio Cymru nad oedd Llywodraeth Cymru wedi nodi meysydd pryder neu ddiffyg cydymffurfio, ond:

> *“Serch hynny, mae gwaith ar ôl o hyd i Lywodraeth Cymru ei wneud yn y maes hwn i gydymffurfio â'i fframwaith rheolaeth hi ei hun ac y byddem yn disgwyl iddo gael ei gwblhau eleni”.*[96]

**148.** Gwnaethom ofyn am ddiweddariad ar y gwaith hwn a chawsom wybod bod 20 o 22 o awdurdodau lleol wedi darparu'r ardystiadau gofynnol. Fodd bynnag, roedd pob un o’r 22 o awdurdodau lleol wedi ymateb i arolwg twyll ac archwilio Llywodraeth Cymru.[97]

**149.** Esboniodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i’r holl awdurdodau lleol weithio o fewn eu fframweithiau archwilio presennol a'i bod yn bwriadu

[94] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 155
[95] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 107
[96] Archwilio Cymru - Cymorth COVID-19 i fusnesau yn 2020-21 - Memorandwm ar gyfer y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Hydref 2022, paragraff 31, tudalennau 14 a 15
[97] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 162

cyhoeddi arolwg twyll a gwall arall yn 2021-22. Byddai swyddogion yn parhau â'r gwaith hwn a, phan nodwyd cyllid nad oedd yn gymwys, byddent yn annog awdurdodau lleol i fynd ar drywydd y cyllid[98].

## Ein barn ni

**150.** Rydym yn nodi'r dystiolaeth gan swyddogion bod canllawiau i awdurdodau lleol ar gyfer Cynllun Grant Ardrethi Annomestig COVID-19 wedi'u cyhoeddi'n gyson i'r holl awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rydym yn pryderu am sut y defnyddiwyd y disgresiwn hwn.

**151.** Yn benodol, rydym yn pryderu am gymhwysiad anghyson y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ar gyfer busnesau hunanddarpar. Arweiniodd hyn at roi taliadau cymorth i rai busnesau er nad oeddent yn bodloni'r meini prawf, ond mewn awdurdodau lleol eraill a gymhwysodd y meini prawf yn llym, ni chafodd rhai busnesau y cymorth roedd arnynt ei angen. Nid oedd yn glir o'r dystiolaeth a roddwyd i ni i ba raddau roedd disgresiwn wedi'i ddefnyddio a pha iawn sydd ar gael i fusnesau dilys na chafodd gymorth roedd ganddynt hawl iddo.

**152.** Rydym yn nodi y bydd gwaith PCM a gwiriadau sicrwydd ac ôl-weithredol o gymorth COVID-19 i fusnesau Llywodraeth Cymru yn parhau am gryn amser. Rydym yn pryderu na wnaeth Llywodraeth Cymru gadarnhau'n benodol y byddai'n diwygio ei methodoleg ar gyfer cyfrifo'r amcangyfrif yn sgil canfyddiadau archwilwyr a sylwadau'r Archwilydd Cyffredinol yn ei Dystysgrif Archwilio ar Gyfrifon 2020-21.

**153.** Rydym yn nodi o Femorandwm Archwilio Cymru, nad oedd rhai awdurdodau lleol wedi nodi achosion o dwyll a gwall a pha mor annhebygol yw hyn. Rydym yn arbennig o bryderus y nodwyd twyll a gwall gwerth £570,000 mewn un awdurdod lleol lle y cynhaliwyd gwiriadau ychwanegol gan y Fenter Twyll Genedlaethol. Mae hyn yn codi pryderon a allai awdurdodau lleol nad ydynt wedi dewis cynnal y gwiriadau ychwanegol gan y Fenter Twyll Genedlaethol golli twyll a gwall heb yr archwiliadau ychwanegol hyn.

**154.** Rydym yn synnu nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud mwy i annog awdurdodau lleol i gynnal gwiriadau ychwanegol gan y Fenter Twyll Genedlaethol ar y grantiau COVID-19 a weinyddwyd ganddynt. Yn fwy cyffredinol, nid ydym wedi cael ein hargyhoeddi bod digon yn cael ei wneud i nodi twyll a gwall.

**155.** Rydym yn cydnabod yr anawsterau o ran gosod terfyn amser ar gyfer cwblhau PCM o ystyried ei ddibyniaeth ar gyflymder ac ansawdd yr ymateb a ddarperir gan y busnesau a maint y gwaith sydd ei angen. Rydym yn croesawu ymrwymiad yr Ysgrifennydd Parhaol i sicrhau bod

[98] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 167

digon o adnoddau i wneud y gwaith hwn, ond yn pwysleisio pwysigrwydd cwblhau'r gwaith hwn mewn modd amserol.

**Argymhelliad 11.** Rydym yn siomedig i nodi nad oedd Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2021-22, a osodwyd gerbron y Senedd ar 13 Rhagfyr 2022, yn cynnwys amcangyfrif twyll a gwall. Rydym yn argymell bod esboniad am hyn yn cael ei ddarparu i'r Pwyllgor, yn enwedig o ystyried y sicrwydd y rhoddodd swyddogion i ni y byddai'r amcangyfrif hwn yn cael ei gynnwys.

**Argymhelliad 12.** Rydym yn croesawu'r canlyniad bod un awdurdod lleol wedi dewis talu am gynhyrchion ychwanegol y Fenter Twyll Genedlaethol, a nododd dwyll a gwall o werth sylweddol. Byddai hyn yn awgrymu bod cynnal rhagor o wiriadau o'r fath yn cynnig gwerth am arian. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sefydlu cyfrif clir o'r camau y mae awdurdodau lleol wedi’u cymryd i asesu'r risg o dwyll a gwall, ac ymateb iddi, yn y grantiau cymorth busnes a weinyddwyd ganddi a’i bod yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

**Argymhelliad 13.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o eglurder ar y sefyllfa ddiweddaraf am adfer arian o'r cynlluniau Cymorth Covid-19 i Fusnesau y mae wedi'u gweinyddu, gan gynnwys esboniad o sut y mae'r ffigurau hyn yn ymwneud â'r symiau a adlewyrchir ym memorandwm yr Archwilydd Cyffredinol a'r rhai a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod tystiolaeth lafar.

**Argymhelliad 14.** Rydym yn croesawu’r ffaith bod tîm newydd o ddeg aelod o staff i wneud gwaith Monitro ar ôl Cwblhau sy'n canolbwyntio ar grantiau i ficrofusnesau a busnesau bach a chanolig wedi'i sefydlu dros dro am ddwy flynedd, gydag wyth o'r deg aelod wedi’u recriwtio’n allanol am gyfnod penodol sy’n dod i ben yn ystod haf 2023. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar sefyllfa staffio’r tîm hwn y tu hwnt i haf 2023.

**Argymhelliad 15.** Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd Llywodraeth Cymru o ran cwblhau ei gwaith Monitro ar ôl Cwblhau fel rhan o'n gwaith craffu yn y dyfodol ar Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi diweddariadau chwe misol i’r Pwyllgor ar y cynnydd sy’n cael ei wneud.

# 6. Alldro adnoddau

**156.** Mae'r 'Crynodeb o Alldro Adnoddau' yn adrodd bod alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb a gymeradwyir gan y Senedd ar gyfer pob cwmpas (Prif Grŵp Gwariant neu Adran). Yn y nodiadau i hyn, mae Llywodraeth Cymru yn esbonio'r prif resymau dros y tanwariant a'r gorwariant.

**157.** Yn ei adroddiadau ar waith craffu ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn ystod y Bumed Senedd, gwnaeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus argymhellion bod Llywodraeth Cymru yn gwella eglurder a thryloywder yr esboniadau yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau.

**158.** Ym mis Ebrill 2019, dywedodd Llywodraeth Cymru fod ei hadroddiad alldro blynyddol yn rhoi manylion cynhwysfawr am sut y mae alldro Llywodraeth Cymru yn cymharu â'r gyllideb[99]. Yn ddiweddarach, nododd fod yr adroddiad alldro yn un o'r pedwar adroddiad allweddol y mae'n eu llunio i ymdrin â "gwaith cyflawni a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil"[100]. Yn ei adroddiad ar waith craffu ar Gyfrifon 2019-20 (Mawrth 2021), argymhellodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus fod:

> *"… Llywodraeth Cymru yn adolygu'r ffordd y mae'n esbonio'r amrywiannau rhwng y gyllideb a'r alldro, fel yr adroddwyd yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau. Dylai hyn ddefnyddio iaith glir i egluro gwahanol elfennau'r gyllideb a'r alldro yn eu herbyn. Dylai hefyd egluro goblygiadau tanwariant i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Cronfa Wrth Gefn Cymru) a darparu'r gwasanaethau a ddarperir."*[101]

**159.** Yn ei hymateb, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n "parhau i geisio gwella eglurder yr esboniadau a ddarperir yn y Crynodeb o'r Alldro Adnoddau"[102]. Ychwanegodd y canlynol:

> *"Yn anffodus, hyd nes y bydd y cyfrifon wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan Archwilio Cymru, ni allwn gwblhau'r sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn ac felly'r balans wrth gefn. Am y rheswm hwn darperir rhagor o wybodaeth am yr alldro*

[99] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, 30 Ebrill 2019
[100] Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru 2020-21, tudalen 36
[101] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, Craffu ar Gyfrifon 2019-20: Llywodraeth Cymru (Mawrth 2021)
[102] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Hydref 2021

> *terfynol mewn adroddiad ar wahân a gyhoeddir o fewn tair wythnos i osod y cyfrifon blynyddol".*[103]

**160.** Rydym yn nodi, o ystyried yr oedi cyn cyflwyno Cyfrifon 2020-21, fod yr Adroddiad Alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol honno ar gael adeg gwaith craffu'r Pwyllgor. Cyhoeddwyd yr Adroddiad Alldro ar gyfer 2021-22 ar 27 Chwefror 2023 er bod Cyfrifon 2021-22 wedi'u gosod ar 13 Rhagfyr 2022. Mae hyn yn siomedig gan ei fod y tu hwnt i'r tair wythnos a awgrymodd Llywodraeth Cymru a gellid ei ystyried yn gam yn ôl o ran prydlondeb adrodd.

**161.** Caiff adroddiad alldro Llywodraeth Cymru ei lunio ar sail wahanol i'r crynodeb o Alldro Adnoddau. Yn ei hadroddiad alldro ar gyfer 2020-21, dywedodd Llywodraeth Cymru y canlynol:

> *"Mae Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn cynnwys Crynodeb Alldro Adnoddau gan gynnwys rheolaeth a gymeradwywyd yng nghynnig Trydydd Cyllideb Atodol 2020-21.*
>
> *Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau lefel is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EM. Adroddir ar y cyllidebau gweinyddol hyn yn y dogfennau a'r tablau a oedd yn cyd-fynd â Thrydedd Gyllideb Atodol 2020-21."*[104]

**162.** Yn ei Nodiadau Esboniadol ar gyfer Trydedd Gyllideb Atodol 2020-21 (cyllideb a gymeradwywyd gan y Senedd am y flwyddyn), nododd Llywodraeth Cymru y "sail ychydig yn wahanol" ar gyfer paratoi'r ffigurau yn y ddau "adroddiad".[105]

**163.** Nododd hyn fod cyllideb Llywodraeth Cymru, a ddefnyddiwyd ar gyfer y Crynodeb o Adnoddau Alldro, yn cynnwys "eitemau nad ydynt yn sgorio fel rhan o'r 'Adnoddau sy'n Ofynnol' gan Weinidogion Cymru"[106]. Mae'r rhain yn cynnwys symiau ar gyfer 'benthyca â chymorth' (£88.8 miliwn) ac 'Ardrethi Annomestig Cenedlaethol sy'n Daladwy (a'r Costau Casglu)' (£697.2 miliwn). Darparodd dabl i gysoni rhwng y ddau yn ôl pob portffolio. Dangosodd hyn y canlynol:

[103] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 15 Hydref 2021
[104] Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar alldro 2020 i 2021, 9 Awst 2022
[105] Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020 i 21, Nodyn Esboniadol, tudalen 62
[106] Trydedd Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020 i 21, Nodyn Esboniadol, tudalen 62

- £25.689 biliwn yw cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, sydd wedi'i gynnwys yng Nghynnig y Gyllideb a’r Crynodeb o Alldro Adnoddau.
- £26.498 biliwn yw cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21, sydd wedi'i gynnwys yn y Nodyn Esboniadol a’r Adroddiad Alldro.

**164.** Mae'r gwahaniaeth, sef £809 miliwn, ar draws holl Brif Grwpiau Gwariant Llywodraeth Cymru, ac eithrio Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

**165.** Gan nad ydynt yn adrodd ar yr un sail, nid yw awgrym Llywodraeth Cymru bod yr adroddiad alldro yn ategu’r wybodaeth yn y crynodeb o alldro adnoddau yn ymddangos yn briodol. Gallai darllen ar draws y ffigurau a adroddwyd fod yn ddryslyd i ddarllenwyr sy'n ceisio deall y rhesymau dros y tanwariant neu’r gorwariant yn erbyn y gyllideb.

**166.** Gwnaethom edrych pa newidiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i wella'r esboniadau am y gwahaniaethau rhwng ei halldro a'r gyllideb, ac a yw'r rhesymau a'r goblygiadau i gyllideb Cymru ar gyfer 2020-21 yn glir.

**167.** Wrth esbonio'r hyn yr oedd wedi'i wneud yn wahanol ar gyfer 2020-21 i wella eglurder esboniadau a ddarparwyd yn y crynodeb o alldro adnoddau, dywedwyd y canlynol wrth y Pwyllgor:

> *“We've included an explanation of what the summary of resource outturn is, and an explanation of how it relates to the outturn reports. Those are the very last explanations in the Accounts in relation to the SORO. We've included for each of the ambits a breakdown of the overall variance in each type of budget, and provided an explanation for the main variances within that”.*[107]

**168.** Ychwanegodd swyddogion fod Llywodraeth Cymru yn parhau i geisio defnyddio iaith glir, pan fo modd, i esbonio amrywiannau a'u bod, cyn hynny, wedi cyflwyno geirfa o derminoleg gyllidebol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn croesawu adborth gan y Pwyllgor a rhanddeiliaid ar sut y gellid gwneud rhagor o welliannau[108].

## Goblygiad tanwariant £155.5 miliwn ddiwedd 2020-21

**169.** Nododd Adroddiad Alldro Llywodraeth Cymru 2020-21 mai £505.5 miliwn oedd y balans yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru ar 1 Ebrill 2021, sef £155.5 miliwn yn fwy na’r cyfanswm a

[107] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 89
[108] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 90

ganiateir. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod Prif Ysgrifennydd y Trysorlys wedi gwrthod ei gais i gario ymlaen cyllid sydd dros y cyfanswm a ganiateir ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru.

**170.** Yn ei llythyr eglurhaol at y Pwyllgor Cyllid am Adroddiad Alldro 2020-21, dywedodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol y canlynol:

> *"O ganlyniad, bydd Cymru'n cael ei hamddifadu o £155.5m y dylem fod wedi gallu ei gario ymlaen – ac rwyf wedi rhoi gwybod i Brif Ysgrifennydd y Trysorlys bod hyn yn gwbl annerbyniol."*[109]

**171.** Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol am hyn ar 29 Medi 2022[110]. Dywedodd ei bod yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cael yr un hyblygrwydd ag o'r blaen gan Drysorlys Ei Fawrhydi (Trysorlys EF)[111]. Roedd hyn yn cynnwys ei galluogi i wrthbwyso ei gorwariant cyfalaf yn erbyn ei thanwariant refeniw. At hynny:

> *"… [Welsh Government had] a lot of engagement with Treasury on this particular issue, both myself with the Chief Secretary to the Treasury, going back a long time, in terms of the budgetary flexibilities, which we talk about very frequently, but then also at official level as well, to try and seek assurance on this particular point …"*[112]

**172.** Ychwanegodd y Gweinidog y canlynol:

> *"And I think that Wales does have one of the best records of being amongst the best departments in the UK, and devolved Governments, of course, in terms of utilising the budget to the full."*[113]

**173.** O ystyried bod Trysorlys Ei Mawrhydi (Trysorlys EM) wedi gwrthod cais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen cyllid sydd dros yr hyn a ganiateir ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 31 Mawrth 2021 ac, yn sgil colli £155.5 miliwn i Gymru, gwnaethom ofyn i'r swyddogion a allent esbonio pam nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu defnyddio'r cyllid hwn cyn iddo gael ei golli.

---

[109] Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Bwyllgor Cyllid y Senedd, 4 Awst 2022, tudalen 2
[110] Pwyllgor Cyllid y Senedd, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2022, paragraff 91
[111] Pwyllgor Cyllid y Senedd, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2022, paragraff 92
[112] Pwyllgor Cyllid y Senedd, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2022, paragraff 92
[113] Pwyllgor Cyllid y Senedd, Cofnod y Trafodion, 29 Medi 2022, paragraff 93

**174.** Esboniodd y swyddogion pam roeddent yn credu y gallai Trysorlys EM fod wedi gwneud y penderfyniad hwn, gan ddatgan y canlynol:

> *"In terms of why, we don't have a firm answer on that, [...] I think it was in respect of the overall level of the underspend across the UK, particularly across UK departments, which was £25 billion. I think in my mind, if we'd been allowed flexibility last year, the question would have been, 'Well, what about flexibility elsewhere?' Also, I think what came into the Treasury thinking was around the impact of potential consequentials. The health department in England actually returned over £18 billion-worth of funding. If the Treasury had looked at that from a Barnett consequential point of view, that would mean £1 billion for Wales, which obviously wouldn't have been acceptable."*[114]

**175.** Er mwyn rhoi materion yn eu cyd-destun a thynnu sylw at arwyddocâd y cyllid a gollwyd i Gymru, gwnaethom dynnu sylw'r swyddogion bod y cyllid £155.5 miliwn, na chafodd ei dynnu i lawr neu a gafodd ei dalu yn ôl i Drysorlys EM, yn cyfateb i oddeutu dwy ran o dair o geiniog ar dreth incwm. Cadarnhawyd y swm hwn mewn gohebiaeth ddilynol a gafwyd gan y Pwyllgor. Dywedodd y canlynol:

> *"Yn 2022-23, yn seiliedig ar y canllaw cyflym a gyhoeddwyd ochr yn ochr â Chyllideb ddrafft 2022-231, mae £155.5 miliwn yn cyfateb i tua dwy ran o dair o'r refeniw a godir o roi 1c ar ben pob un o gyfraddau treth incwm Cymru."*[115]

**176.** O ran gwersi a ddysgwyd, clywsom y byddai'n ddefnyddiol tynnu sylw at newidiadau neu angen am hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru i Drysorlys EM yn gynharach. Clywsom fod Llywodraeth Cymru wedi cael y cadarnhad terfynol ar 19 Ebrill 2022 na fyddai Trysorlys EM yn rhoi hyblygrwydd iddi. Dywedwyd y canlynol wrthym:

> *"There was a very long, protracted discussion between not only the Ministers, but between officials. So, we found out very late that this wouldn't be happening".*[116]

**177.** Ymhellach, esboniwyd y canlynol:

---

[114] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 113
[115] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 09 Rhagfyr 2022
[116] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 112

> *"The supplementary estimates for the UK Government are done about January time. Perhaps, if we have one of these exceptional years again, we can flag our needs, maybe, in January rather than February. That may make a difference—".*[117]

**178.** Gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru bennu'r amserlen ar gyfer ei chais i gario ymlaen, ar 31 Mawrth 2021, swm dros yr hyn a ganiateir ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru a'r ymateb gan Drysorlys EM. Gwrthododd wneud hynny. Pennodd yr Ysgrifennydd Parhaol yr amserlen a ganlyn:

- Tachwedd 2021: Hysbysodd swyddogion Trysorlys EM Lywodraeth Cymru na allai wrthbwyso ei gorwariant cyfalaf yn ôl-weithredol yn erbyn ei thanwariant refeniw.
- Rhagfyr 2021: Cyflwynodd Llywodraeth Cymru "opsiynau i Drysorlys EM gan awgrymu sut y gellid defnyddio'r 'swm gormodol' gan gynnwys ei ailbroffilio i flynyddoedd y dyfodol a'i glustnodi i'w ddefnyddio ar raglenni penodol"[118].
- Mawrth 2022: Dywedodd Trysorlys EM wrth Lywodraeth Cymru "nad oedd yn derbyn unrhyw rai o'r awgrymiadau ac y byddai'n cymhwyso ei safbwynt fel y'i nodwyd ym mis Tachwedd 2021"[119].
- 29 Mawrth 2022: Cyfarfu'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd i drafod y mater.
- 4 Ebrill 2022: Ysgrifennodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ar y pryd i ofyn iddo ailystyried ei benderfyniad.
- 19 Ebrill 2022: Gwrthododd Prif Ysgrifennydd y Trysorlys gais y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## Ein barn ni

**179.** Rydym yn croesawu'r gwelliannau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u gwneud i gyflwyno'r esboniadau o amrywiant y gyllideb yn y nodiadau i'r adroddiad alldro, wrth ymateb i'r argymhelliad a wnaed gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a'n rhagflaenodd ar Gyfrifon 2019-20.

---

[117] Cofnod y Trafodion, 19 Hydref 2022, paragraff 115
[118] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 09 Rhagfyr 2022
[119] Llythyr gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, 09 Rhagfyr 2023

Fodd bynnag, rydym yn credu bod gwaith i'w wneud o hyd i wneud yr iaith a ddefnyddir yn fwy hygyrch ac osgoi gorddefnyddio terminoleg gyllidebol.

**180.** Rydym yn siomedig y collwyd cyllid sylweddol i Gymru o ganlyniad i danwariant Llywodraeth Cymru yn 2020-21, a allai fod wedi'i ddefnyddio i gyllido gwasanaethau cyhoeddus hanfodol. Fel y cadarnhawyd mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor hwn, mae'r cyllid £155.5 miliwn yn cyfateb i oddeutu dwy ran o dair o geiniog ar dreth incwm. Mae hyn yn gyllid sylweddol ac rydym yn bryderus y collwyd hynny, yn enwedig nawr pan fo cymaint o bwysau ar gyllid cyhoeddus.

**181.** Mae'n anodd deall pam y mae Llywodraeth Cymru wedi aros cyhyd i gael gwybod nad allai wneud fel y mynnai gyda'r tanwariant, a pham y gwnaed cais o'r fath yn ôl-weithredol. Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru wedi tybio, yn seiliedig ar benderfyniadau blaenorol Trysorlys EM, y byddai'n cael hyblygrwydd i ddefnyddio'r cyllid. Mae rhai bylchau yn y dystiolaeth a roddwyd i ni yn yr amserlen ar gyfer cais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen cyllid ar 31 Mawrth 2021. Rydym yn nodi, ym mis Tachwedd 2021, yr hysbysodd swyddogion Trysorlys EM na ellid newid, yn ôl-weithredol, y gyllideb refeniw nas defnyddiwyd yn gyfalaf i wrthbwyso gorwariant yn erbyn y gyllideb gyfalaf. O ganlyniad, roedd y tanwariant refeniw yn fwy na'r hyn y gellid ei ddarparu ar gyfer hynny yng Nghronfa Wrth Gefn Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n glir i ni pryd y gwnaeth Llywodraeth Cymru y cais am hyblygrwydd a pha drafodaethau a ddigwyddodd rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EM rhwng diwedd y flwyddyn (Mawrth 2021) a mis Tachwedd 2021.

**182.** Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a allai gwneud cais yn gynharach fod wedi galluogi'r cyllid i gael ei ddefnyddio. Nid ydym yn disgwyl i gyllid o'r fath gael ei golli o Gymru eto a dylid gwneud ceisiadau'n gynharach yn y dyfodol.

**Argymhelliad 16.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor am yr amserlenni a'r trafodaethau a ddigwyddodd rhwng Llywodraeth Cymru a Thrysorlys EF ynghylch cais Llywodraeth Cymru i gario ymlaen swm sy'n fwy na'r hyn a ganiateir ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Cymru ar 31 Mawrth 2021. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion am drafodaethau a ddigwyddodd rhwng diwedd y flwyddyn (Mawrth 2021) a mis Tachwedd 2021.

**Argymhelliad 17.** Nid ydym yn disgwyl i ragor o gyllid gael ei golli i Gymru yn dilyn tanwariant gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn argymell ei bod yn ceisio cymeradwyaeth am hyblygrwydd gan Drysorlys EF cyn gynted â phosibl cyn diwedd y flwyddyn ariannol fel y gellir defnyddio cyllid yn ystod y flwyddyn os gwrthodir ei chais.

# Atodiad A: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r sesiynau tystiolaeth lafar ar dudalen we'r Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| **6 Hydref 2022** | **Dr Andrew Goodall**<br>Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru<br>**Peter Kennedy**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru<br>**Gawain Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru<br>**Tim Moss**<br>Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru<br>**Duncan Hamer**<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru |
| **19 Hydref 2022** | **Dr Andrew Goodall**<br>Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru<br>**Peter Kennedy**<br>Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol, Llywodraeth Cymru<br>**Gawain Evans**<br>Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru<br>**Tim Moss**<br>Prif Swyddog Gweithredu, Llywodraeth Cymru<br>**Duncan Hamer**<br>Cyfarwyddwr Gweithrediadau – Busnes a Rhanbarthau, Llywodraeth Cymru |